

MSc(Econ) Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol,
Prifysgol Aberystwyth, Medi 2010

Cyflwynir y traethawd hwn fel rhan o ofynion Gradd Meistr:
Cymdeithas a Gwleidyddiaeth Cymru

Pleidiau Cenedlaetholgar Lleiafrifol:
Astudiaeth Gymharol
o sut mae Plaid Cymru a'r SNP
wedi addasu oherwydd Datganoli

Traethawd Estynedig Meistr gan
Alis Angharad Jones

DATGANIADAU:

Nifer o eiriau y traethawd hwn yw 14, 961 yn cynnwys troednodiau.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad:

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn yn flaenorol ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad:

GOSODIAD:

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae gwasanaethau cywiro wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn. Cydnabyddir ffynonellau eraill (e.e mewn troednodiau sy'n rhoi cyfeiradau eglur). Atodi'r llyfryddiaeth.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad:

Crynodeb

Gyda dyfodiad datganoli yn 1999, crëwyd haen etholedig ranbarthol newydd ym Mhrydain. Mae datganoli wedi creu cyfleoedd newydd i bleidiau Prydain, yn enwedig i'r pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol. O ganlyniad i ddatganoli, daeth Plaid Cymru a'r *Scottish National Party* (SNP) yn brif wrthbleidiau. Yn ogystal â hynny, yn 2007, llwyddodd y ddwy blaid i gael mynediad i lywodraeth ar lefel ranbarthol am y tro cyntaf. Prin iawn yw'r llenyddiaeth sydd wedi archwilio'n fanwl yr addasiadau mewnol a wnaeth Plaid Cymru a'r SNP yn dilyn datganoli. Amcan y traethawd yw cymharu profiadau Plaid Cymru a phrofiadau'r SNP ers dyfodiad datganoli, gan gloriannu'r gwahanol sialensiau y bu'n rhaid i'r ddwy blaid eu hwynebu wrth addasu i'r cyd-destun gwleidyddol a sefydliadol newydd. Y brif ddadl sydd wedi'i datblygu yn y prosiect yw bod Plaid Cymru a'r SNP wedi newid mewn modd nad oedd yn unigryw iddynt hwy. Ysgrifennwyd llawer am y modd y newidiodd pleidiau gwyrddion a phleidiau newydd er mwyn ymateb i dwf mewn cefnogaeth. Mae'r astudiaeth hon yn dadlau bod Plaid Cymru a'r SNP wedi newid mewn ffordd debyg i'r ffordd a amlinellir yn y llenyddiaeth honno. Mae darganfyddiadau a dadansoddiadau'r astudiaeth hon yn darparu ffordd o archwilio sut mae pleidiau cenedlaetholgar yn newid wrth iddynt addasu i gyd-destun sefydliadol, gwleidyddol ac etholiadol newydd.

Cynnwys:

| | |
|---|-------------|
| Pennod 1 - Rhagymadrodd | Tudalen 5. |
| Pennod 2 - Adolygiad o lenyddiaeth | Tudalen 10. |
| Pennod 3 - Hanes:gwendid dylanwad gwleidyddol ac etholiadol Plaid Cymru a'r SNP cyn 1999 | Tudalen 20. |
| Pennod 4 - Plaid Cymru ers datganoli | Tudalen 26. |
| Pennod 5 - SNP ers datganoli | Tudalen 39. |
| Pennod 6 – Casgliad | Tudalen 52. |
| Llyfryddiaeth | Tudalen 57. |

Pennod 1

Rhagymadrodd

Gyda dyfodiad datganoli i Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn 1999, crëwyd haen etholedig ranbarthol newydd ym Mhrydain. Yn wir, roedd hyn yn dueddiad a welwyd yn Ewrop ers yr 1970au; yn sgil sefydlu llywodraeth ranbarthol, crëwyd arena sefydliadol newydd mewn nifer o wladwriaethau ar draws Gorllewin Ewrop.¹ Perodd datganoli sawl newid ym Mhrydain; bu'n rhaid i bob un plaid wynebu sialensiau amrywiol. Wrth edrych ar Brydain yng nghyd-destun gwladwriaethau Gorllewin Ewrop, mae'n eglur bod y broses ddatganoli wedi creu cyfleoedd newydd i bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol.² Rhoddodd yr arena sefydliadol newydd hon gyfle i'r pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol ennill cynrychiolaeth ar lefel ranbarthol am y tro cyntaf. Yn achos Prydain, daeth Plaid Cymru a'r *Scottish National Party* (SNP) yn brif wrthbleidiau yn syth wedi'r etholiadau cyntaf yn 1999. Yn ogystal, llwyddodd y ddwy blaid i gael mynediad i lywodraeth ar y lefel ranbarthol am y tro cyntaf yn 2007.³

Sbardunodd hyn lenyddiaeth ar sut yr oedd datganoli yn effeithio ar wleidyddiaeth Prydain. Canolbwyntia'r llenyddiaeth ar wleidyddiaeth etholiadol a phleidleisio aml-lefel; ceir astudiaethau manwl ar gyraeddiadau'r pleidiau cenedlaetholgar ynghyd â'r pleidiau gwladwriaethol ar lefel rhanbarthol.⁴ Ymddangosodd llenyddiaeth ar sut yr oedd datganoli yn

¹ Biezen, I a Hopkin, J. 'Party organization in multi-level contexts', yn Hough, D a Jeffery, C. (goln.), *Devolution and Electoral Politics* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2006), t.14.

² Ibid tt.14-36.

³ Hepburn, E. 'The 2007 Scottish Elections: A dark day for participatory democracy?', *Regional and Federal Studies*, 18/1 (2008), tt.93-101. a Scully, R a Elias, A. 'The 2007 Welsh Assembly Election', *Regional and Federal Studies*, 18/1 (2008), tt.103-109.

⁴ Ceir llenyddiaeth ar gyraeddiadau etholiadol Plaid Cymru a'r SNP, ynghyd â'r pleidiau rhanbarthol; enghraifft o'r llenyddiaeth sydd wedi ymddangos yn sgil datganoli: Curtice, J. 'Did Devolution Make a Difference? The first post-devolution on UK election in Scotland', *Journal of Elections, Public Opinion & Parties*, 12/1 (2002), tt. 64-79; Hough, D., Jeffery, C. 'Understanding Post-Devolution Elections in Scotland and Wales in Comparative Perspective', *Party Politics*, 15 (2009) tt.219-240; Scully, R., Wyn Jones, R. a Trystan, D. 'Turnout, Participation and Legitimacy in Post-Devolution Wales', *British Journal of Political Science*, 34 (2004), tt.519-37; Wyn Jones, R. a Scully, R. 'Devolution and Electoral Politics in Scotland and Wales', *Publius*, 36/1 (2006), tt.115-135.

effeithio ar y gymdeithas sifil, hunaniaeth genedlaethol a'r farn gyhoeddus yng Nghymru a'r Alban.⁵ Canolbwyntia gweddill y gwaith academiaidd ar ffurfiau amgen o gynrychiolaeth ac astudiaethau ar sut y mae pleidiau gwladwriaethol y Deyrnas Gyfunol wedi addasu i'r cyfnod newydd o ddatganoli.⁶ Fel y gwelir, ceir llenyddiaeth eang ar gyraeddiadau etholiadol y pleidiau cenedlaetholgar, ond cyfyngedig yw'r llenyddiaeth sydd yn canolbwyntio ar sut y mae Plaid Cymru a'r SNP wedi addasu i'r cyfnod newydd o ddatganoli. Rhaid pwysleisio y ceir rhai gweithiau, megis gwaith Bradbury, sydd yn cyffwrdd â'r addasiadau y mae'r SNP a Phlaid Cymru wedi eu gwneud yn sgil dyfodiad datganoli, ond prin iawn yw'r llenyddiaeth sydd wedi archwilio'n fanwl yr addasiadau mewnol a wnaeth Plaid Cymru a'r SNP yn dilyn datganoli.⁷ Felly, mae'n hen bryd cael dadansoddiad academiaidd o'r addasiadau etholiadol a gwleidyddol y bu'n rhaid i Blaid Cymru a'r SNP eu gwneud.

Yn sicr, bu'r digwyddiadau a welwyd wedi 1999 yn hollbwysig yn hanes gwleidyddiaeth Cymru a'r Alban; gwawriodd posibiliadau gwleidyddol ac etholiadol newydd. Yn sgil datganoli, cafodd Plaid Cymru a'r SNP brofiadau newydd. Wrth reswm, roedd hyn yn mynd i greu cymhlethdodau na ellid bod wedi eu rhagweld. Gan eu bod ar dir anghyfarwydd, bu'n rhaid i Blaid Cymru a'r SNP wynebu sawl her. Er mwyn wynebu'r heriau hyn, bu'n rhaid i'r ddwy blaid addasu'n gyson. Gwelir bod hwn yn bwnc pwysig sydd wedi ei anwybyddu yn y llenyddiaeth. Oherwydd hyn, amcan y traethawd yw cymharu profiadau Plaid Cymru a phrofiadau'r SNP ers dyfodiad datganoli, gan gloriannu'r gwahanol

⁵ Enghraifft o'r llenyddiaeth sydd wedi ymddangos yn sgil datganoli: Bond, R. a Rosie, M. 'Identity Matters: The personal and political significance of feeling Scottish' yn Bromley, C., Curtice, J., Hinds, K a Park, A. (goln.), *Devolution: Scottish answers to Scottish questions* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2003); Curtice, J. 'Public Opinion and the Future of Devolution', yn Trench, A. (gol.), *The Dynamics of Devolution: The State of the Nations 2005* (Exeter: Imprint Academic, 2005); Royles, E. *Revitalising Democracy? Devolution and Civil Society in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).

⁶ Enghraifft o'r llenyddiaeth sydd wedi ymddangos yn sgil datganoli: Betts, S., Borland, J. a Chaney, P. 'Inclusive Government for Excluded Groups: Women and Disabled People', yn Chaney, P., Hall, T. a Pithouse, A. (goln.), *New Governance – New Democracy?* (Cardiff: University of Wales Press, 2001); Bradbury, J. 'British political parties and devolution: adapting to multi-level politics in Scotland and Wales', yn Hough, D., Jeffrey, C. (goln.), *Devolution and Electoral Politics* (Manchester: Manchester University Press, 2006); Laffin, M., Shaw, E. 'British Devolution and the Labour Party: How a National Party Adapts to Devolution', *British Journal of Politics and International Relations*, 9 (2007), tt.55-72.

⁷ Bradbury, J. 'British political parties and devolution'.

sialensiau y bu'n rhaid i'r ddwy blaid eu hwynebu wrth addasu i'r cyd-destun gwleidyddol a sefydliadol newydd. Y cwestiwn yr ymchwilir iddo fydd: *'Sut mae Plaid Cymru a'r SNP wedi datblygu ac addasu yn sgil dyfodiad datganoli?'*. Eir ati i ateb y cwestiwn hwn trwy adolygu'r llenyddiaeth sy'n trafod sut y mae pleidiau llai (e.e pleidiau gwyrdd neu bleidiau adain dde) yn tueddu i ymateb i gynydd mewn cefnogaeth, neu i'r profiad o ymuno â llywodraeth. Yn ogystal bydd y prosiect yn adolygu unrhyw weithiau sy'n trafod sut y mae pleidiau cenedlaetholgar/rhanbarthol wedi ymateb i ddatganoli mewn cyd-destunau eraill. O ymdrin â'r gweithiau hyn, disgwylir y bydd modd crynhoi cyfres o ffactorau allweddol sy'n tueddu i wynebu pleidiau gwleidyddol wrth iddynt ymateb i gyd-destun newydd. Gwneir hyn oherwydd ychydig iawn o waith academiaidd sydd wedi astudio sut mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol wedi ymateb i lwyddiant gwleidyddol ac etholiadol. Disgwylir y bydd y ffactorau hyn yn cynnwys materion tebyg i'r canlynol: trefniadaeth; arweinyddiaeth; ideoleg a pholisïau; perthynas â'r aelodaeth; delwedd gyhoeddus; ynghyd â sgil-ffeithiau canlyniadau etholiadol gwahanol i'r arfer.

Penderfynwyd canolbwyntio ar Blaid Cymru a'r SNP yn bennaf, er mwyn sicrhau bod yr astudiaeth yn gymharol deg a chyson. Yn ogystal, mae datganoli wedi creu cyfleoedd newydd i Blaid Cymru a'r SNP i gynyddu cynrychiolaeth, i ddylanwadu ar y broses llunio polisi, ac i fod yn aelodau o lywodraeth ar lefel ranbarthol. Mae hyn oll yn sail cadarn ar gyfer astudio sut mae pleidiau cenedlaetholgar yn addasu a newid wrth iddynt dyfu o fod yn bleidiau lleiafrifol i fod yn bleidiau pwysig mewn arena sefydliadol newydd. Mae ymchwilio i brofiadau Plaid Cymru a'r SNP ers dyfodiad datganoli yn bwnc cyfoes. Wrth fynd i'r afael â'r prosiect, defnyddir amryw o ddulliau i ddadansoddi'r sialensiau y mae'r pleidiau wedi eu hwynebu ers dyfodiad datganoli. Yn bennaf, defnyddir data empeiraidd a dulliau ansoddol. Rhaid pwysleisio bod natur gyfoes y gwaith ymchwil hwn yn esgor ar sawl problem a chyfyngiad. Yn sylfaenol, mae yna ddiffyg ffynonellau a gwybodaeth drwyadl am y pwnc.

Bydd y wybodaeth ynglŷn â'r ddwy blaid yn cael ei chasglu drwy ddarllen hynny o lenyddiaeth eilaidd sydd ar gael a thrwy ddarllen unrhyw ddogfennau cynradd y gellir eu casglu, er enghraifft manifestos etholiad, datganiadau i'r wasg. Yn ogystal, bydd defnydd yn cael ei wneud o gyfweiliadau lled-strwythuredig gydag unigolion allweddol.⁸ Yn ddefnyddol, gofyn i'r aelodau lenwi holiadur fyddai orau, ond gyda chyfyngiadau amser, nid yw hyn yn opsiwn posibl. Mae cyfweiliadau lled-strwythuredig yn hollbwysig er mwyn rhoi rhywfaint o ryddid i'r ymatebwyr.⁹ Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar y syniadau canlynol: trefniadaeth; arweinyddiaeth; ideoleg a pholisïau; aelodaeth a'r delwedd gyhoeddus. Gwerthusir y ffynonellau cynradd ac eilaidd trwy ddefnyddio triangleiddio; bydd hyn yn cynyddu dilysrwydd y data.¹⁰ Yn ogystal, bydd triangleiddio'n cael ei ddefnyddio pan yn bosib wrth ystyried yr unigolion allweddol a fydd yn cael eu cyfweld. Rhaid nodi y bydd yn anodd defnyddio triangleiddio ym mhob achos, oherwydd natur gyfoes y gwaith ac argaeledd unigolion.

Er mwyn cyflawni hyn oll, bydd y traethawd yn dilyn y strwythur canlynol. I ddechrau, adolygir y llenyddiaeth academaidd. Bydd yr adran hon yn ymdrin â'r llenyddiaeth gyfredol sy'n trafod hynt pleidiau llai a phleidiau cenedlaetholgar/rhanbarthol. Bydd hyn yn cynnig fframwaith dadansoddiadol ar gyfer astudio datblygiad pleidiau gwleidyddol. Ar sail y gwaith hwn, amlinellir nifer o osodiadau sy'n ymwneud â datblygiad pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol wrth iddynt ddatblygu o fod yn bleidiau ymylol i fod yn pleidiau mewn grym. Yn ogystal, bydd casgliad y bennod yn crynhoi cyfres o ffactorau allweddol sy'n tueddu i wynebu pleidiau gwleidyddol wrth iddynt ymateb i gyd-destun

⁸ Mae data empeiraidd y traethawd yn tynnu ar ddau set o gyfweiliadau gan yr awdur gydag unigolion allweddol o fewn Plaid Cymru a'r SNP. Cynhaliwyd 20 cyfweiliad i gyd. Cyfwelwyd trawstoriad teg o unigolion o bob plaid. Cynhaliwyd y set gyntaf o gyfweiliadau ym mis Ionawr - Ebrill 2009. Cynhaliwyd yr ail set rhwng mis Mehefin - Awst 2010. Er mwyn cadw enwau'r unigolion yma'n anhysbys, ym mhrif gorff y prosiect cyfeirir at y cyfweiliadau gan ddefnyddio'r dyddiad y'u cynhaliwyd.

⁹ Opendakker, R. 'Advantages and Disadvantages of Four Interview Techniques in Qualitative Research', *Forum Qualitative Social Research*, 7/4 (2006), ar gael o: <http://nbn-resolving.de/urn:nbn:de:0114-fqs0604118>.

¹⁰ Alexander, V., Cronin, A., Dickinson, M., Fielding, J., Moran-Ellis J., Sleney, J. a Thomas, H. 'Triangulation and integration: processes, claims and implications', *Qualitative Research*, 6 (2006), tt. 45-59.

newydd. Ceir pennod ar Hanes y pleidiau nesaf, yn rhoi hanes a chefnidir cryno y pleidiau. Dengys yr adran hon bod gan Plaid Cymru a'r SNP ddiffyg dylanwad gwleidyddol ac etholiadol cyn 1999. Bydd y penodau nesaf yn mynd ati i ganolbwyntio'n benodol ar Plaid Cymru a'r SNP. Mae'r adrannau astudiaethau achos hyn yn ceisio trafod sut yn union y mae'r pleidiau wedi datblygu ac addasu ers dyfodiad datganoli. Defnyddir y ffactorau sydd wedi'u crynhoi yn y bennod flaenorol fel fframwaith er mwyn trefnu'r drafodaeth hon. Bydd y penodau wedi'u strwythuro yn ôl y themâu canlynol; Trefniadaeth, Polisiau / Ideoleg, Perthynas gyda'r Aelodau a Delwedd. Bydd y Casgliad yn clymu darganfyddiadau'r prosiect wrth ei gilydd. Yn gyntaf, bydd y casgliad yn cloriannu, cymharu ac yn gwerthuso unrhyw newidiadau / datblygiadau y bu'n rhaid i'r ddwy blaid eu hwynebu yn sgil y cyd-destun gwleidyddol a sefydliadol newydd. Yn ail, bydd y casgliad yn asesu i ba raddau y mae profiadau Plaid Cymru a'r SNP yn cyfateb i'r hyn a awgrymwyd yn y llenyddiaeth; a oedd y fframwaith yn iawn ynteu a yw Plaid Cymru a'r SNP wedi newid mewn ffordd annisgwyl? Mae'r casgliad yn dod i'w derfyn drwy gyfeirio at y sialensiau sy'n wynebu Plaid Cymru a'r SNP o hyn ymlaen.

Pennod 2

Adolygiad o lenyddiaeth

Diben y bennod hon yw cyflwyno'r llenyddiaeth berthnasol sydd wedi'i chyhoeddi ar destunau a phleidiau tebyg, er mwyn gosod y prosiect ymchwil yn ei gyd-destun academiaidd ehangach. Oherwydd diffyg llenyddiaeth ar y pwnc sydd dan sylw, anodd yw creu fframwaith cadarn i sicrhau asesiad trylwyr o Blaid Cymru a'r SNP ers datganoli. Mae llwyddiannau Plaid Cymru a'r SNP ers dyfodiad datganoli yn eglur. Er y llwyddiannau hyn, ychydig iawn o waith academiaidd sydd wedi astudio'r ffyrdd y mae'r ddwy blaid wedi datblygu ac addasu o ganlyniad i'r sefydliad gwleidyddol newydd. O ystyried bod llawer iawn o waith ysgolheigaidd yn astudio pleidiau gwleidyddol, mae'n syndod cyn lleied o waith academiaidd sy'n ymdrin â Phlaid Cymru a'r SNP ers dyfodiad datganoli.¹¹

Yn y bennod hon, bwriedir creu fframwaith pendant ar sail llenyddiaeth ehangach, er mwyn rhoi trefn ar y drafodaeth yn y penodau nesaf. Ceir amrywiaeth o lenyddiaeth sydd yn berthnasol i'r prosiect ymchwil: llenyddiaeth sy'n trafod sut y mae'r pleidiau llai yn tueddu i ymateb i gynnydd mewn cefnogaeth, yn ogystal â llenyddiaeth sy'n archwilio sut y mae'r pleidiau llai yn ymateb wedi iddynt ymuno â llywodraeth am y tro cyntaf. Hefyd, ceir llenyddiaeth sy'n ymdrin â sut y mae pleidiau cenedlaetholgar / rhanbarthol mewn cyd-destunau eraill wedi ymateb i ddatganoli. Bydd casgliad y bennod yn crynhoi cyfres o ffactorau allweddol sy'n tueddu i wynebu pleidiau gwleidyddol wrth iddynt ymateb i gyd-destun newydd. Defnyddir y ffactorau hyn i greu fframwaith er mwyn trefnu gweddill y prosiect.

¹¹ Strøm, K a Müller, W. 'Political Parties and Hard Choices', yn Strøm, K a Müller, W. (goln.), *How Political Parties in Western Europe Make Hard Decisions* (Cambridge: Cambridge University Press, 1999), tt.1-35, t. 5.

Fframwaith llenyddol

Mae'r ysgolheigion sy'n astudio'r pleidiau llai yn canolbwyntio'n bennaf ar y newidiadau a'r datblygiadau a welir yng nghyd-destun nodweddion syniadaethol a threfniadol y pleidiau wrth iddynt dyfu o fod yn bleidiau ymylol i fod yn bleidiau gwleidyddol pwysig. Yn ogystal, ceir llawer o waith sy'n ymchwilio i brofiadau'r pleidiau hynny pan maent mewn grym.¹²

Defnyddia Pedersen y cysyniad o rychwant oes (*lifespan*) plaid i esbonio sut mae pleidiau gwleidyddol yn esblygu, gan newid ac addasu dros gyfnod o amser.¹³ Yn ôl Pedersen, bydd pleidiau'n esblygu fesul pedwar cam, ac mae'n rhaid iddynt groesi trothwy penodol er mwyn symud o un cyfnod i'r cyfnod nesaf:

- i) *datganiad* (cyhoeddi'r ewylllys i fod yn blaid / sefyll mewn etholiadau),
- ii) *awdurdodiad* (llwyddo i fod yn blaid gydnabyddedig),
- iii) *cynrychiolaeth* (ennill seddau),
- iv) *perthnasedd* (pryd mae presenoldeb plaid mewn cyfundrefn wleidyddol yn effeithio ar batrymau cystadleuaeth o fewn y gyfundrefn).¹⁴

Gall plaid lwyddo i fod yn berthnasol mewn dwy ffordd: i) meddu ar botensial i glymbleidio ii) meddu ar botensial i lwgrwobrwyo.¹⁵ Adolygodd Deschouwer y model hwn, gan ychwanegu pumed cyfnod, sef cyfnod *llywodraethu* (plaid yn llywodraethu naill ai ar ei

¹² Müller- Rommel, F. 'The Lifespan and the Political Performance of Green Parties in Western Europe', *Environmental Politics*, 11/1 (2002), tt.1-3; Poguntke, T. 'Green Parties in National Governments: from protest to acquiescence?', *Environmental Politics*, 11/1 (2002), tt.133-145; Rihoux, B a Rüdiger, W. 'Analysing Greens in Power: setting the agenda', *European Journal of Political Research*, 45/1 (2006), tt.1-33.


¹³ Pedersen, M. 'Towards a New Typology of Party Life-Spans and Minor Parties', *Scandinavian Political Studies*, 5/1 (1982), tt.1-16.

¹⁴ Ibid.

¹⁵ Ibid.

phen ei hun neu mewn clymblaid).¹⁶ Cawn weld sut mae'r cyfnod newydd hwn yn gweddu i rychwant oes plaid yn ôl ffigwr Deschouwer.¹⁷

Y ffigwr fel y'i adolygwyd gan Deschouwer.



Dengys y llenyddiaeth hon fod plaid wleidyddol, wrth iddi ddatblygu, yn cael cyfleoedd newydd ac yn profi cyfyngiadau newydd.¹⁸ Gwelwn felly sut y gall y cyfleoedd a'r cyfyngiadau hyn addasu'r ffordd y mae plaid yn blaenoriaethu ei hamcanion. Mae yna nifer o astudiaethau academaidd yn canolbwyntio ar y gwahanol amcanion y bydd pleidiau gwleidyddol yn eu harddel ar wahanol adegau yn eu hoes a'u datblygiad. Y mae Strøm yn gwahaniaethu rhwng tri amcan y gall pleidiau ymgynhyrdd atynt:

- i) Rhoi blaenoriaeth i ennill / cynyddu pleidleisiau
- ii) Dylanwadu ar bolisi
- iii) Ceisio bod mewn grym (Llywodraethu).¹⁹

Nid yw amcanion pleidiau yn sefydlog, ac mae'r amcanion yn debygol iawn o newid os ceir newidiadau i'r cyd-destun gwleidyddol a sefydliadol.²⁰ Golyga hyn y bydd amcanion unrhyw blaid yn newid wrth iddi groesi trothwy newydd. Er enghraifft, bydd plaid sydd wedi llwyddo i ennill cefnogaeth etholiadol ddigonol i groesi trothwy *cynrychiolaeth* yn troi ei sylw at ddylanwadu ar bolisi neu ar geisio ennill grym. Rhaid hefyd ystyried ei bod yn bosib i

¹⁶ Deschouwer, K. *New Parties in Government: In power for the first time* (Oxon: Routledge, 2008), tt.3-4.

¹⁷ Ibid. t.3.

¹⁸ Deschouwer, K. *New Parties*; Pedersen, M. 'Towards a new typology' a Strøm, K a Müller, W. 'Political Parties'. tt.1-35.

¹⁹ Strøm, K. 'A Behavioral Theory of Competitive Political parties', *American Journal of Political Science*, 34/2 (1990), tt.565-598.

²⁰ Strøm, K a Müller, W. 'Political Parties'. t.19.

bleidiau gamu'n ôl i drothwyon blaenorol. Enghraifft benodol o hyn yw pan na fydd plaid yn adennill grym. Mae'r newidiadau hyn yn gorfodi plaid i ailystyried ei hamcanion. Mae croesi neu fynd yn ôl dros wahanol drothwyon yn gorfodi plaid i fabwysiadu strategaeth newydd sy'n gweddu i'w statws gwleidyddol, etholiadol a sefydliadol newydd.

Mae gwireddu'r amcanion hyn yn gallu bod yn her i'r pleidiau ar brydiau. Gall pleidiau wynebu sawl problem wrth iddynt geisio cwrdd â'u blaenoriaethau.²¹ Enghraifft o hyn yw'r her sy'n wynebu pleidiau sydd wedi llwyddo'n etholiadol. Wrth reswm, mae pleidiau eraill yn ystyried pleidiau sy'n llwyddo'n etholiadol yn fygythiad etholiadol, ac mae hyn yn gofyn ar i'r blaid ymdrin ag ymateb y pleidiau eraill i'w presenoldeb yn y gyfundrefn wleidyddol. Ymateb posib y pleidiau eraill i'r bygythiad yw anwybyddu'r materion a godir gan y blaid newydd, mabwysiadu polisiau tebyg i danseilio apêl y blaid newydd, neu o bosibl, mabwysiadu polisiau gwahanol i annog etholwyr i gefnogi polisi amgen i'r hyn a gynnigir gan y blaid newydd.²² Wrth i'w hapêl gael ei thanseilio, bydd y blaid newydd yn gorfod ceisio ailddiffinio ei neges wleidyddol er mwyn sefydlu apêl etholiadol amgen. Gall hyn fod yn her fawr.

Fel y nodwyd uchod, mae llwyddo'n etholiadol yn gallu creu problemau newydd i bleidiau. Mae'n bosib i densiwn ddatblygu wrth i blaid geisio ychwanegu at bolisiau craidd (er mwyn iddynt apelio at fwy o bleidleiswyr), a cheisio aros yn ffyddlon i werthoedd y blaid. Mae'n bosib iawn na fyddai ychwanegiadau at bolisiau (creu neges newydd i'r blaid) yn boblogaidd ymysg prif aelodau a chefnogwyr y blaid gan fod prif egwyddorion y blaid yn cael eu tanseilio. Mae rhannu grym gyda phleidiau eraill hefyd yn anodd i gefnogwyr plaid

²¹ Strøm, K. 'A Behavioral Theory'. a Strøm, K a Müller, W. 'Political Parties'.

²² Downs, A. 'Pariahs in their Midst: Belgian and Norwegian parties react to extremist threats', *Western European Politics*, 24/3 (2001), tt.23-42; Kitschelt, H. *The transformation of European Social Democracy* (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1994); a Meguid, B. 'Competition between Unequals: the role of mainstream party strategy in niche party success', *American Political Science review*, 99/3 (2005), tt.347-358.

i'w dderbyn.²³ Mae'n bosib nodi o'r llenyddiaeth hon y gall datblygu i fod yn blaid gonfensiynol danseilio cefnogaeth etholiadol plaid.²⁴

Y mae'r llenyddiaeth yn nodi ei bod yn bosib i blaid ddilyn mwy nag un amcan a newid blaenoriaeth yr amcanion. Gall hyn greu trafferthion i'r blaid.²⁵ Mae Strøm a Müller yn datgan bod pleidiau sy'n dilyn mwy nag un amcan yn gorfod wynebu cyfaddawdau (*trade-offs*) anodd.²⁶ Enghraifft o hyn yw plaid sy'n awyddus i newid ei blaenoriaeth er mwyn cynyddu nifer ei phleidleisiau. I'r blaid, mae ehangu ei rhaglen wleidyddol yn syniad synhwyrol, er mwyn apelio at fwy o bobl a thrwy hynny gynyddu maint ei phleidlais. Yn ôl y llenyddiaeth hon, mae syniad fel hyn yn gallu creu anhapusrwydd ac anfodlonrwydd ymysg y prif aelodau oherwydd bod y blaid yn troi cefn ar ei phrif egwyddorion er mwyn apelio at fwy o bobl.²⁷

Er bod rhai pleidiau'n penderfynu dilyn mwy nag un amcan, mae'r rhan fwyaf yn penderfynu blaenoriaethu un amcan yn unig.²⁸ Dadleua Mair, Rihoux a Rüdiger gan dynnu ar brofiadau y Blaid werdd yn yr Almaen fod plaid sy'n ceisio ei sefydlu ei hun fel y brif blaid yn y sefyllfa wleidyddol a sefydliadol newydd mewn perygl o danseilio ei hapêl at yr aelodau gwreiddiol, gan ddadwneud ei llwyddiant.²⁹ Mae nifer o academyddion yn nodi y gall plaid, wedi iddi brofi methiant etholiadol, ddod o dan bwysau i newid ei neges wleidyddol. Gallai hyn olygu troi cefn ar werthoedd ac egwyddorion craidd y blaid, a rhoi'r gorau i amddiffyn y

²³ Heinisch, R. 'Success in Opposition – Failure in Government: explaining the performance of right-wing populist parties in public office', *West European Politics*, 26/3 (2003), 91-130. t.102.

²⁴ Smith, G. 'A System Perspective on Party System Change', *Journal of Theoretical Politics*, 1/3 (1989), tt.249-363.

²⁵ Strøm, K a Müller, W. 'Political Parties'. tt.1-35.

²⁶ Ibid. t.9.

²⁷ Ibid. tt.1 -35.

²⁸ Ibid. t.27.

²⁹ Mair, P. 'The Green Challenge and Political Competition: how typical is the German experience', *German Politics*, 10/2 (2001), tt.99-116 a Rihoux, B a Rüdiger, W. 'Analysing Greens in power'.

gwerthoedd a'r egwyddorion hynny.³⁰ Y ffordd fwyaf tebygol o wneud hyn, yn ôl y llenyddiaeth, yw herio awdurdod yr arweinyddiaeth.³¹

I grynhoi'r adolygiad o lenyddiaeth hyd yn hyn, mae pleidiau gan amlaf yn ceisio anelu at ennill mwy o bleidleisiau neu ddylanwadu ar bolisiau neu fod mewn grym. Er nad yw'r amcanion yn aros yn sefydlog, ac er ei bod yn bosib i blaid ddilyn mwy nag un o'r amcanion hyn, mae'n debygol y bydd y blaid yn blaenoriaethu un dros y gweddill.³² Nid yw cwrdd amcanion yn hawdd, a cheir sialensiau penodol yn gysylltiedig â'r tri amcan. Yn ogystal, bydd disgwyl i oblygiadau ymddangos wrth i'r blaid benderfynu sut i ymateb i'r sialensiau. Yn olaf, mae plaid nad yw'n gallu cwrdd â'i hamcanion yn gyson yn debygol o wynebu cwestiynau difrifol oddi ei haelodau a'i chefnogwyr. Gall hyn arwain at raniadau mewnol a rhaniadau yn yr arweinyddiaeth.

Nodwyd uchod y sialensiau sy'n gallu ymddangos yn sgil llwyddiant etholiadol. Gall pleidiau wynebu nifer fawr o newidiadau a heriau ychwanegol wedi iddynt groesi'r trothwy *llywodraethu*. Yn awr, ystyrir y llenyddiaeth berthnasol sy'n ceisio asesu sut y mae pleidiau'n newid wrth iddynt lywodraethu am y tro cyntaf. Y prif waith sy'n ymchwilio i brofiadau a goblygiadau bod mewn llywodraeth am y tro cyntaf yw cyfrol Deschouwer.³³ Prin iawn yw'r sylw a roddir yn y gyfrol i bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol, er gwaetha'r ffaith bod nifer gynyddol ohonynt wedi dod i rym yn ddiweddar, (gan amlaf ar lefel llywodraeth rhanbarthol).

³⁰ Adams, J., Clark, M., Ezrow, L. a Glasgow, G. 'Are Niche Parties Fundamentally Different from Mainstream Parties? The causes and the electoral consequences of Western European parties' policy shifts, 1976-1998', *American Journal of Political Science*, 50/3 (2006), tt.513-529; Harmel, R a Janda, K. 'An Integrated Theory of Party Goals and Party Change', *Journal of Theoretical Politics*, 6/3 (1994), tt.259-287; Panebianco, A. *Political Parties: Organization and Power* (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1988).

³¹ Harmel, R a Janda, K. 'An integrated theory' a Harmel, R., Heo, U., Tan, A. A Janda, K. 'Performance, Leadership, Factions and Party Change: an empirical analysis', *Western European Politics*, 18/1 (1995), tt.1-33.

³² Strøm, K. 'A Behavioral Theory' tt.565-89.

³³ Deschouwer, K. *New Parties*.

Yn ôl y llenyddiaeth, mae bod mewn grym yn creu perthynas newydd gyda'r etholwyr, gydag organau'r blaid a chyda'r pleidiau eraill. Mae'r llenyddiaeth yn datgan bod sawl newid amlwg yn digwydd i bleidiau pan maent yn croesi'r trothwy i lywodraethu. Daw Deschouwer i'r casgliad nad oes unrhyw newidiadau mawr yn digwydd i blaid wrth iddi ddechrau llywodraethu; mae'r newidiadau'n digwydd yn raddol ac yn gynnil.³⁴ Yn ôl Deschouwer, "*There might be a large amount of little alterations of rules and procedures and ways of communicating.*"³⁵ Mae'r llenyddiaeth am bleidiau Gwyrddion yn awgrymu bod trefniadaeth fewnol pleidiau'n newid wrth iddynt lywodraethu. Awgryma'r llenyddiaeth bod creu swyddi newydd o fewn plaid yn un newid a welir wrth iddi lywodraethu am y tro cyntaf. Cyfeiria'r llenyddiaeth at y ffaith bod yn rhaid canoli strwythurau arwain oherwydd bod pleidiau'n sylweddoli bod yr amser sydd ganddynt i ymateb wedi'i leihau'n ddirfawr "*(reaction time has been drastically reduced).*"³⁶ Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt symleiddio strwythur y blaid. Mae Müller-Rommel a Poguntke yn pwysleisio bod y newidiadau hyn yn digwydd yn raddol ond eu bod yn deillio o'r ffaith bod y blaid wedi cynyddu mewn pwysigrwydd.³⁷

Mae ideoleg y blaid yn elfen arall y mae'r llenyddiaeth am bleidiau Gwyrddion a phleidiau newydd yn ei thrafod yn fanwl. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod newidiadau mewn ideoleg yn taro pleidiau wrth iddynt lywodraethu am y tro cyntaf. Mae'r llenyddiaeth yn disgwyl iddynt fabwysiadu iaith newydd, neu ffordd newydd o gyfeirio at eu hunaniaeth ideolegol.³⁸ Er hyn, rhaid pwysleisio mai bychan yw'r newidiadau hyn ar y cyfan. Yn ôl Deschouwer, "*Ideologies are broad and general views that do change over time, but at a rather slow pace.*"³⁹ I gyd-fynd â hyn, rhaid nodi y dylid disgwyl mwy o newidiadau o ran

³⁴ Mair, P. 'The green challenge' a Rihoux, B a Rüdiger, W. 'Analysing Greens in power'.

³⁵ Deschouwer, K. *New Parties*. tt.14.

³⁶ Müller-Rommel, F a Poguntke, T. *Green Parties in National Governments* (London:Frank Cass, 2002).

³⁷ Ibid.

³⁸ Ibid. tt.103.

³⁹ Deschouwer, K. *New Parties*. tt.13.

polisi nag o ran ideoleg, oherwydd bod ideolegau yn cael eu sefydlu a'u datblygu dros gyfnod hir.

Mae Deschouwer a Müller-Rommel a Poguntke yn nodi trwy gydol eu gwaith bod ennill grym yn gallu creu problemau gydag aelodau a chefnogwyr y pleidiau.⁴⁰ Mae Deschouwer yn nodi bod hyn yn amlwg iawn mewn pleidiau sydd yn ennill grym trwy fod yn bartner mewn clymblaid neu yn llywodraethu fel llywodraeth leiafrifol.⁴¹ Nid oes gan y blaid y rhyddid i wneud popeth y mae'n dymuno ei wneud; rhaid cyfaddawdu mewn sawl ffordd. I'r aelodau, gall hyn yn aml olygu bod y blaid yn gohirio neu'n cael gwared ar bolisiau. Wrth reswm, yn aml golyga hyn nad yw'r aelodau'n hapus gyda'r canlyniadau.

Yn ôl Deschouwer, "*opting for office does indeed mean that a number of voters are likely to punish the party at the next election.*"⁴² Mae'r llenyddiaeth am bleidiau Gwyrddion a phleidiau newydd sy'n llywodraethu yn awgrymu bod plaid, wrth lywodraethu am y tro cyntaf, yn gallu profi dirywiad yn eu llwyddiant etholiadol. Y prif reswm dros hyn yw perfformiad anfoddfaol gan y blaid yn ystod ei chyfnod mewn grym. Mae rhai pleidleiswyr yn debygol o gosbi'r blaid am hyn. Mae Mair a Rihoux a Rüdiger yn pwysleisio bod hyn yn arbennig o wir am y pleidiau Gwyrddion sydd mewn clymblaid.⁴³ Cafodd nifer o bleidiau Gwyrddion eu gorfodi i gyfaddawdu ar eu agenda polisi, a chosbwyd y pleidiau hyn gan eu haelodau yn yr etholiadau dilynol gan fod yr aelodau hynny'n teimlo bod y pleidiau wedi ildio eu hegwyddorion sylfaenol.

Casgliad y bennod

Cawn weld, o'r llenyddiaeth ar y pleidiau lleiafrifol, bod goroesi a chroesi gwahanol gyfnodau yn oes y blaid yn gallu annog pleidiau i newid eu hamcanion, ac mae hyn yn gallu

⁴⁰ Deschouwer, K. *New Parties*. a Müller-Rommel, F a Poguntke, T. *Green Parties*.

⁴¹ Deschouwer, K. *New Parties*. tt.1-14.

⁴² Ibid. t.12.

⁴³ Mair, P. 'The Green Challenge' tt.99-116 a Rihoux, B a Rüdiger, W. 'Analyzing Greens In Power'tt. 1-33.

peri newidiadau a phroblemau i'r pleidiau. Yn hanner cyntaf yr adran hon, dadleuwyd y bydd pleidiau gwleidyddol yn wynebu nifer o gyfleoedd, cyfyngiadau a sialensiau wrth iddynt oresgyn gwahanol drothwyon yn ystod eu hoes. Mae croesi trothwy newydd yn peri i blaid addasu ei hamcanion. Bydd yn rhaid datblygu strategaeth addas ac unigryw er mwyn cwrdd â'r amcanion hynny. Mae gwireddu gwahanol amcanion yn gallu arwain at sialensiau newydd i'r blaid. Mae'r llenyddiaeth hon yn rhoi fframwaith i alluogi'r prosiect i ystyried a yw Plaid Cymru a'r SNP wedi wynebu yr un math o gyfleoedd, cyfyngiadau a newidiadau wrth iddynt ddatblygu o fod yn bleidiau ymylol i fod yn bleidiau o bwys a phleidiau mewn llywodraeth ar lefel ranbarthol.

Fel y pwysleisiwyd eisoes, mae prinder llenyddiaeth sy'n astudio'r newidiadau sydd wedi digwydd i Blaid Cymru a'r SNP ers dyfodiad datganoli. Mae'r llenyddiaeth sy'n asesu sut mae pleidiau llai yn newid wrth iddynt gael grym am y tro cyntaf yn rhoi fframwaith pendant i asesu'r newidiadau ym Mhlaid Cymru a'r SNP. Mae'r llenyddiaeth hon yn amlinellu tueddiadau sy'n digwydd i bleidiau wrth iddynt gynyddu mewn pwysigrwydd a chwilio am fwy o bleidleisiau er mwyn llywodraethu. Bydd y prosiect ymchwil yn gallu defnyddio'r llenyddiaeth hon i ganfod a yw'r tueddiadau hyn yn berthnasol o ran edrych ar ddatganoli. Bydd y prosiect yn gallu darganfod a yw pleidiau'n addasu yn sgil datganoli yn yr un ffordd ag y maent wedi addasu i heriau mawr megis llywodraethu am y tro cyntaf. Yn ogystal, gan fod Plaid Cymru a'r SNP wedi ennill grym am y tro cyntaf, mae hi'n hanfodol bwysig canolbwyntio ar y llenyddiaeth hon gan mai o achos datganoli y rhoddwyd y cyfle newydd hwn iddynt.

O ymdrin â'r gweithiau hyn, gellir crynhoi cyfres o ffactorau allweddol sy'n tueddu i wynebu pleidiau gwleidyddol wrth iddynt ymateb i gyd-destun newydd. Yn benodol, mae'r ffactorau pwysicaf o safbwynt y prosiect hwn yn cynnwys: trefniadaeth; arweinyddiaeth; ideoleg a pholisïau; perthynas â'r aelodaeth. Y mae'r llenyddiaeth a astudiwyd wedi rhoi

cyfiawnhad dros ddefnyddio'r themâu hyn fel ffordd o strwythuro'r prosiect. Felly, ar sail y llenyddiaeth sydd wedi astudio pleidiau gwleidyddol mewn llywodraeth a chyd-destunau eraill, gallwn ffurfio fframwaith er mwyn astudio sut y mae datganoli wedi effeithio ar Plaid Cymru a'r SNP a sut mae'r pleidiau hynny wedi addasu yn sgil datganoli. Mae adrannau nesaf y traethawd am edrych ar Plaid Cymru a'r SNP, gan ystyried yn ofalus y fframwaith sydd wedi'i osod uchod. A yw Plaid Cymru a'r SNP, fel ei gilydd, yn newid fel y mae'r llenyddiaeth yn awgrymu?

Pennod 3

Hanes: gwendid dylanwad gwleidyddol ac etholiadol Plaid Cymru a'r SNP cyn 1999

Plaid Cymru, hyd at ddatganoli

Yn 1925 daeth criw bychan at ei gilydd o wahanol rannau o Gymru i sefydlu Plaid Cymru, y mudiad rhyddid cenedlaethol cyntaf. Er bod gan yr aelodau cynnar resymau gwahanol dros sefydlu Plaid Cymru yn 1925, pryder dwys am ddyfodol Cymru, ei phobl a'i chymunedau oedd yn uno'r unigolion hynny. Yn 1936, llosgwyd yr adeiladau ar faes yr Ysgol Fomio yng Ngwynedd ar derfyn ymgyrch brotest a barodd am bron i bymtheg mis. *"Rhaid pwysleisio mai tân Penyberth a ddangosodd yn amlwg fod y Blaid ar gael."*⁴⁴ Cryfhaodd y digwyddiad broffil y blaid yn sylweddol, ac erbyn 1939, roedd nifer yr aelodau bron wedi dyblu i 2,000.⁴⁵ Ni chafodd y blaid lawer o lwyddiant etholiadol yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Yn Etholiad Cyffredinol 1929, gwelwyd y Blaid yn ymgiprys am ei sedd seneddol gyntaf yng Nghaernarfon, gan ennill 609 o bleidleisiau, sef 1.6% o'r bleidlais.⁴⁶ Roedd rhaglen wleidyddol y blaid a'i harweinwyr yn rhy ddadleuol i ennill cefnogaeth llawer o'r Cymry *"Too controversial to sway the hearts and minds of many Welsh people."*⁴⁷ Wedi'r siom fawr yn 1929, wynebodd y blaid gyfres o newidiadau. Prif ganolbwynt y Blaid am wyth deg mlynedd cyntaf ei bodolaeth oedd ennill digon o gefnogaeth i gynrychioli Cymru yn San Steffan.

Wedi'r Ail Ryfel Byd, roedd Plaid Cymru'n dal i gael trafferth dylanwadu yn wleidyddol ar lefel Brydeinig. Chwaraeodd y cynnig i foddii pentref Capel Celyn yng nghwm

⁴⁴ Davies, J. (gol.), *Cymru'n Deffro: Hanes y Blaid Genedlaethol 1925-75* (Talybont: Y Lolfa, 1981), t.55.

⁴⁵ Ibid.

⁴⁶ Ibid. t.51

⁴⁷ Morgan, K. *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (Oxford: Clarendon Press, 1998), t.256.

Tryweryn yn 1957, er mwyn cyflenwi dŵr i Lerpwl, ran allweddol yn nhwf Plaid Cymru.⁴⁸ Yn sgil yr helynt, llwyddodd y Blaid i ethol ei Aelod Seneddol cyntaf i Dŷ'r Cyffredin yn 1966. Enillodd Gwynfor Evans is-etholiad Caerfyrddin ar Orffennaf 14eg. Galluogodd hyn i Blaid Cymru groesi trothwy cynrychiolaeth am y tro cyntaf.⁴⁹ Yn dilyn hyn, llwyddodd y Blaid i ddod o drwch blewyn i ennill is-etholiadau Gorllewin y Rhondda yn 1967 a Chaerffili yn 1968. Erbyn etholiad cyffredinol 1970, roedd gan Blaid Cymru, am y tro cyntaf, ymgeisydd ym mhob etholaeth yng Nghymru. Yn anffodus, collodd Gwynfor Evans ei sedd yn etholiad cyffredinol 1970. Golygodd hynny fod y blaid wedi camu'n ôl o drothwy cynrychiolaeth, ac arweiniodd hynny at gyfnod o ddadlau ac anghytuno mewnol. Roedd y ffaith fod Plaid Cymru'n cystadlu am bob sedd yng Nghymru yn arwydd fod y Blaid yn aeddfedu. Parhaodd y momentwm, ac yn 1974, enillwyd seddau Caernarfon a Meirionnydd, ac ym mis Hydref 1974, ail etholwyd Gwynfor Evans.⁵⁰

Nid gormodaeth fyddai datgan mai'r Cymry'n gwrthod datganoli yn 1979 oedd un o'r digwyddiadau mwyaf trawmatig yn hanes gwleidyddiaeth Cymru. Gwnaeth y ffaith i'r Cymry wrthod datganoli mewn modd mor bendant i Blaid Cymru gwestiynu ei chyfeiriad.⁵¹ Er gwaethaf hyn, yn yr 1970au, bu'r Blaid mynd drwy broses o foderneiddio. Cyn hynny, roedd y polisïau'n cyfateb i ideolegau'r blaid.⁵² Erbyn 1981, roedd Plaid Cymru wedi ymrwymo'n swyddogol i sosïalaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, mabwysiadodd y Blaid 'sosïalaeth gymunedol' yn amcan cyfansoddiadol.⁵³ Rhoddodd hyn gyfle i Blaid Cymru fod yn opsiwn arall yn lle'r Blaid Lafur. Yn raddol, datblygodd y Blaid bortffolio o bolisïau

⁴⁸ Davies, J. *A History of Wales* (London: The Penguin Press, 1993).

⁴⁹ Evans, R. *Rhag Pob Brad* (Talybont: Y Lolfa, 2005), tt.271-279.

⁵⁰ Ers etholiadau 1974, y mae Plaid Cymru wedi llwyddo i groesi'r trothwy cynrychiolaeth ym mhob etholiad cyffredinol.

⁵¹ McAllister, L. *Plaid Cymru: the emergence of a political party* (Bridgend: Seren, 2001).

⁵² *Ibid.* t.159.

⁵³ McAllister, L. *Plaid Cymru* a Wyn Jones, R. *Rhoi Cymru'n Gyntaf, Syniadaeth Plaid Cymru*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007), pennod 4.

sosialaidd, tra roedd y blaid Lafur, yn ystod y 1990au, yn symud tuag at y canol. Golygodd hyn y gallai Plaid Cymru werthu ei hun fel y Blaid a oedd yn ymrwymedig i Gymru.⁵⁴

Roedd Etholiad Cyffredinol 1979 yn un anodd iawn i Blaid Cymru. Disgynnodd cyfanswm pleidleisiau'r blaid i 8%, a gwelwyd nifer y pleidleisiau'n gostwng eto yn Etholiad 1983, i 7.8%.⁵⁵ Yn 1987, tri o ymgeiswyr Plaid Cymru a enillodd seddi yn San Steffan, ond yn 1992, cododd y nifer hwnnw i bedwar. Mae Wyn Jones yn dadlau bod y Blaid, er gwaethaf y llwyddiannau hyn, wedi methu â manteisio'n etholiadol ar y cynnydd a welwyd yn ei hygredd trwy gydol yr 1990au.⁵⁶ Y prif ffactor sy'n esbonio hyn yw'r drefn bleidleisio 'cyntaf i'r felin'. Erbyn 1999, roedd Plaid Cymru yn sicr yn blaid wleidyddol ac etholiadol ymylol yng ngwleidyddiaeth Prydain. Er bod hanes Plaid Cymru hyd at 1999 wedi bod yn llawn digwyddiadau cyffrous, mae'n deg pwysleisio mai grym gwleidyddol cymharol wan fu gan Blaid Cymru o adeg ei sefydlu yn 1925 hyd at 1999.

Yr SNP hyd at datganoli

Daeth y *Scottish National Party* i fod ar y 7fed o Ebrill, 1934. Sefydlwyd y blaid yn sgil uno'r *National Party of Scotland* a'r *Scottish Party*. Digwyddodd hynny ar adeg a oedd yn galed iawn yn wleidyddol; oherwydd dirwasgiad y 1930au, ynghyd â'r ail ryfel byd, anffafriol oedd yr hinsawdd gwleidyddol a nodweddi flynnydoedd cynnar yr SNP.

Yn union wedi'i sefydlu, bu'n rhaid i'r blaid wynebu rhaniadau a dadlau mewnol yn sgil y newid cyfeiriad a strategaeth cyson o fod yn blaid wleidyddol i fod yn grŵp pwysu. Creodd hyn gryn ansicrwydd.⁵⁷ Roedd un garfan o'r blaid yn gweld yr SNP fel mudiad diwylliannol.⁵⁸ Cafodd y garfan arall ei chreu gan John MacCormick, a oedd yn ceisio

⁵⁴ McAllister, L. *Plaid Cymru*. t.182.

⁵⁵ *Ibid.* t.116

⁵⁶ Wyn Jones, R. *Rhoi Cymru'n Gyntaf*. t.260.

⁵⁷ *Ibid.* t.62.

⁵⁸ McAllister, I. 'Party Organization and Minority Nationalism: A Comparative Study in the United Kingdom', *European Journal of Political Research*, 9/3 (1981), tt. 237-256, t. 239.

tynnu'r blaidd i gyfeiriad gwahanol. Canolbwyntiodd MacCormick ar gynllunio strategaeth er mwyn ennill hunan lywodraeth i'r Alban. Ond, gadawodd MacCormick y blaidd yn 1942 ac aeth ymlaen i ffurfio'r *Scottish Covenant Association*. Roedd y Cyfamod yn ymgyrchu'n bennaf dros ddatganoli i'r Alban. Profodd y gymdeithas hon yn gryn her i'r SNP, gan gipio llwyfan cenedlaetholgar yr SNP, a gadawodd sawl aelod yr SNP i ddilyn MacCormick. Felly, methiant etholiadol a diffyg cefnogaeth a ddiffiniodd flynyddoedd cynnar yr SNP, ac yn ôl Finlay, gellid dweud mai diffyg ideoleg, amheuaeth ynghylch unrhyw gyfeiriad at hunan lywodraeth i'r Alban, a diffyg polisiau pendant, oedd yn nodweddu'r blaidd yn ystod y blynyddoedd cyntaf hynny.⁵⁹

Fel y gwelir, nid yw hanes sefydlu'r SNP, a hanes ei blynyddoedd cyntaf, yn gadarnhaol iawn. Mae academyddion yn disgrifio'r cyfnod cynnar hwn fel adeg pan oedd y blaidd yn gymysglyd ynghylch ei hideoleg, ac o'r herwydd yn peri i bobl beidio ag ymddiried ynnddi.⁶⁰ Mewn termau etholiadol, roedd y blaidd yn wan iawn ac ni wellodd pethau gyda dyfodiad yr ail ryfel byd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, dirywiodd trefniadaeth y blaidd - yn bennaf oherwydd goblygiadau'r rhyfel.

Ni welwyd unrhyw welliant o ran canlyniadau na threfniadaeth y blaidd tan 1945, pan enillodd Robert McIntyre y sedd gyntaf i'r blaidd mewn is-etholiad. Roedd y blaidd wedi llwyddo i groesi trothwy cynrychiolaeth am y tro cyntaf. Er bod hyn yn llwyddiant mawr i'r blaidd, ni ddeilliodd y llwyddiant hwn ar gefnogaeth i'r blaidd yn ystod y 1950au. Yn ôl Lynch, "*The history of the SNP from 1945-1959 was one of continuous striving for survival and growth for a party beset by weak organisation and limited finance*"⁶¹ Roedd y ffactorau hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i'r SNP lwyddo.

⁵⁹ Finlay, R. *Independent and Free – Scottish Politics and the origins of the Scottish National Party 1918-1945* (Edinburgh: John Donald, 1994), t.163.

⁶⁰ Lynch, P. *SNP: The history of the Scottish National Party* (Cardiff: Welsh Academic Press, 2002), t.62.

⁶¹ *Ibid.* t.89.

Newidiodd ffawd y blaid yn ystod y 1960au, pryd y tyfodd y blaid yn gymharol sydyn. Yn ôl Lynch, “*the 1960s were the decade in which the SNP arrived as a serious political force.*”⁶² Dechreuodd yr SNP gael dylanwad wedi i Winnie Ewing ennill etholaeth Hamilton yn is-etholiad 1967.⁶³ Yn ogystal, gwelwyd y blaid yn gwneud cynnydd yn yr etholiadau lleol. Bu’r 1960au yn flynyddoedd positif iawn i’r blaid, a sefydlwyd sawl cangen newydd yn sgil y twf cyflym. Ni chafwyd llawer o lwyddiannau yn etholiad cyffredinol 1970, ond parhaodd y blaid i dyfu yn ystod y 1970au. Yn ystod 1974, cafwyd dau etholiad cyffredinol ym Mhrydain. Yn yr ail etholiad, cafodd y blaid lawer mwy o lwyddiant, gan sicrhau 11 Aelod Seneddol a 30% o’r bleidlais.⁶⁴ Bu llwyddiannau etholiadol y 1970au yn arwyddocaol, ond wedi hynny aeth y blaid i gyfnod o ddirywiad a barodd tan is-etholiad Glasgow Govan yn 1988, pan enillodd yr SNP y sedd.

Wedi methu â sicrhau pleidlais ‘ie’ yn refferendwm 1979, aeth y blaid trwy gyfnod o ddirywiad. Cafwyd llawer o ddadlau mewnol yn ystod yr amser hwn. Oherwydd y dadlau mewnol a’r diffyg llwyddiant, gostyngodd nifer aelodau’r SNP, a gwelwyd dirywiad yn nhrefniadaeth fewnol y blaid.⁶⁵ Ni chafwyd llawer o lwyddiant yn etholiad cyffredinol 1983, nac yn etholiad cyffredinol 1987 pryd y colodd arweinydd y blaid, Gordon Wilson, ei sedd. Ond yn 1988, llwyddodd y blaid, am yr eildro, i ennill sedd Govan mewn is-etholiad. Roedd hyn yn llwyddiant mawr i’r blaid gan iddi ddymchwel mwyafrif y Llafur o oddeutu 19,000.⁶⁶ Roedd y blynyddoedd rhwng etholiadau 1992 a 1997 yn gyfnod pryd y cafodd y blaid ryw faint o lwyddiant etholiadol. Yn wir, yn etholiad cyffredinol 1997, gwelwyd y blaid yn dyblu ei nifer o Aelodau Seneddol o 3 i 6.

⁶² Ibid. t.120.

⁶³ Hassan, G. ‘The Making of the Modern SNP: From Protest to Power yn Hassan, G. (gol.) *The Modern SNP: From Protest to Power* (Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin, 2009), t.1.

⁶⁴ Wilson, G. *SNP: The Turbulent Years 1960-1990* (Yr Alban: Scots Independent Ltd, 2009), t.100.

⁶⁵ Lynch, P. *SNP*. t.188.

⁶⁶ Wilson, G. *SNP*. t.232.

Mae'r gefnogaeth i'r SNP wedi cynyddu a gwanhau ar hyd y blynyddoedd, ac yn ôl Lynch, nid yw ei chanlyniadau mewn etholiadau yn fesur o'r effaith a gafodd ar gwleidyddiaeth.⁶⁷ Er bod y gefnogaeth i'r blaid wedi bod yn ansefydlog dros y blynyddoedd, gwnaeth yr SNP wahaniaeth pendant mewn perthynas â hunan lywodraeth i'r Alban. Yn sicr, mae'r SNP wedi codi ymwybyddiaeth a gorfodi'r pwnc ar agenda San Steffan. Er iddi godi ymwybyddiaeth ynghylch annibyniaeth ledled Brydain, yn debyg iawn i Blaid Cymru yng Nghymru, cyn dyfodiad datganoli nid oedd yr SNP yn rym gwleidyddol mawr yn yr Alban. Mae'n deg dweud mai plaid ymylol, gymharol wan oedd yr SNP yng nghyd-destun gwleidyddiaeth Prydain.

Casgliad y bennod

Yn yr adran hon, ceisiwyd ymhelaethu ar brofiadau etholiadol a gwleidyddol Plaid Cymru a'r SNP cyn datganoli. Yn bennaf oll, mae'n bwysig pwysleisio mai pleidiau ymylol iawn oedd Plaid Cymru a'r SNP yng ngwleidyddiaeth Prydain yn etholiadol cyn dyfodiad datganoli. O edrych ar y cefndir hanesyddol sydd wedi'i amlinellu yn yr adran hon, gellir deall pam y bu datganoli yng Nghymru a'r Alban yn ddatblygiad mor arwyddocaol i Blaid Cymru a'r SNP. Bu'n rhaid i'r ddwy blaid gystadlu mewn etholiadau cyffredinol Prydeinig, o dan amodau anffafriol, am dros wyth deg o flynyddoedd. Sicrhaodd datganoli na fyddai rhwystrau sylweddol yn atal Plaid Cymru a'r SNP rhag croesi trothwy cynrychiolaeth, a sicrhau llais cenedlaetholgar yn sefydliadau gwleidyddol Cymru a'r Alban.

⁶⁷ Lynch, P. *SNP*. t.1.

Pennod 4

Plaid Cymru ers datganoli

O'i gymharu â chanlyniadau'r blaid cyn hynny, roedd canlyniad Plaid Cymru yn etholiadau'r Cynulliad fis Mai 1999 yn destun syndod. Enillodd y Blaid bron i 30% o'r bleidlais, a 17 allan o'r 60 o seddi yn y Cynulliad.⁶⁸ Cadarnhaodd hyn mai Plaid Cymru oedd y brif wrthblaid yn y Cynulliad. Daeth yn amlwg y byddai'r blaid yn gallu cael effaith sylweddol o ran ffurfio polisiau am bod Plaid Cymru wedi sicrhau mai nhw oedd y prif wrthblaid yn y Cynulliad. Yn ogystal, roedd y posibilrwydd o ennill grym yn un realistig. Fel yr awgrymwyd yn y llenyddiaeth, newidiodd amcan Plaid Cymru wedi iddi groesi trothwy cynrychiolaeth. Penderfynodd ddilyn y trywydd o ddylanwadu ar bolisïau, ond cymharol aflwyddiannus fu ei hymdrechion cynnar i wneud hynny.⁶⁹ Yn sgil hyn, datblygodd tensiynau o fewn y blaid. Fel y nodwyd yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth, bydd unrhyw blaid sy'n methu cwrdd â'i hamcanion yn gorfod wynebu cwestiynau anodd a difrifol o du ei haelodau a'i chefnogwyr. Yn achos Plaid Cymru, daeth y tensiynau hyn i fod gan nad oedd y blaid bellach yn canolbwyntio ar faterion traddodiadol megis statws cyfansoddiadol Cymru, cynnal cymunedau Cymraeg gwledig a'r iaith Gymraeg. Arweiniodd hyn at rai aelodau'n ymuno â grwpiau pwysu megis *Cymuned a'r Triban Coch*.⁷⁰

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y pleidiau eraill yn y Cynulliad yn herio dyheadau cyfansoddiadol hirdymor Plaid Cymru. Ar ben hynny, ymatebodd y pleidiau eraill i statws gwleidyddol newydd Plaid Cymru trwy fabwysiadu delwedd a safbwyntiau mwy Cymreig.

⁶⁸ Wyn Jones, R a Trystan, D. 'A quiet earthquake: The first national elections to the National Assembly for Wales,' *CREST Working Paper*, 85 (Medi 2000).

⁶⁹ Cyfweiliad: 30.01.2009

⁷⁰ *Cymuned* oedd grwp pwysu yn 2001 oedd yn ceisio dwyn sylw tuag at faterion megis goblygiadau cymdeithasol a diwylliannol mewnfudo i ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Y *Triban Coch* oedd carfan oddi mewn i'r Blaid, roeddent yn alw am fwy o ystyriaeth o werthoedd sosialaidd y Blaid.

Dechreuodd y pleidiau ddadlau dros faterion a gysylltid yn draddodiadol â Phlaid Cymru, roedd hyn yn her i Blaid Cymru.

Yn 2003, ni chafodd Plaid Cymru gymaint o lwyddiant etholiadol.⁷¹ Cyfrannodd y ffactorau a nodwyd uchod at y siom. Fel y nodwyd yn y llenyddiaeth, yn aml gall colli llawer o seddi sbarduno'r galw am newid mewn plaid. Bu hyn yn wir yn achos Plaid Cymru, ac o ganlyniad i'r colli seddi, cafwyd galwadau o'r fath. Wedi etholiadau'r Cynulliad yn 2003, cafwyd cyfnod o raniadau mewnol ynghylch arweinyddiaeth y blaid. Yn ogystal, cafwyd anfodlonrwydd ac anghytuno mewnol ynghylch strategaeth a pholisiau'r blaid.

Erbyn etholiadau'r Cynulliad yn 2007, roedd y Blaid wedi dysgu rhai gwersi allweddol.⁷² Llwyddodd i adennill peth o'r gefnogaeth a gollwyd yn yr etholiad blaenorol. Golygodd hyn i'r Blaid gael y cyfle, am y tro cyntaf yn ei hanes, i drafod y posibilrwydd o ffurfio llywodraeth glymbleidiol gyda Llafur yn y Cynulliad. Dengys hyn fod hanes y Blaid yng nghyfnod datganoli wedi bod yn gyfnod o geisio addasu i statws newydd fel prif wrthblaid, o ymdrechu i gwrdd ag amcanion newydd ac o geisio addasu i lywodraethu am y tro cyntaf. Roedd yn rhaid i Blaid Cymru ymateb i'r sialensiau a ddaeth yn sgil newid statws etholiadol a gwleidyddol - sialensiau y tynnwyd sylw atynt yn y llenyddiaeth. Gwelwn bod Plaid Cymru wedi gorfod wynebu nifer o sialensiau, cyfleodd a chyfyngiadau wrth iddi groesi gwahanol drothwyon ers dyfodiad datganoli. Dengys hyn sut y datblygodd y blaid yn sgil dyfodiad datganoli.

⁷¹Disgynnodd cynrychiolaeth y blaid yn y Cynulliad o 17 ACau i 12 ACau yn etholiadau 2003. Wyn Jones, R a Scully, R. 'Minor Tremor but Several Casualties: The 2003 Welsh Election', *Journal of Elections, Public Opinion and Parties*, 14, (2004), tt.191-207.

⁷² Erbyn etholiadau 2007, cynyddodd cynrychiolaeth Plaid Cymru i 15 AC. Scully, R a Elias, A. 'The 2007 Welsh Assembly Election.'

Trefniadaeth ac Arweinyddiaeth

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu sawl ffordd wahanol y gellir disgwyl i blaid addasu mewn amgylchedd gweithredu newydd. Yn gyntaf, canolbwyntia'r isadran hon ar newidiadau mewn trefniadaeth ac arweinyddiaeth. Yn ôl un cyfweiliad, "*mae datganoli wedi chwyldroi trefniadaeth Plaid Cymru yn gyfan gwbl.*"⁷³ Ym mhob cyfweiliad, cydnabuwyd yn ddi-os bod trefniadaeth Plaid Cymru wedi newid oherwydd dyfodiad datganoli. Mynegodd pob un a gafodd ei gyfweld fod Plaid Cymru wedi troi i fod yn blaid fwy proffesiynol.

Gwelwyd newidiadau yn nhrefniadaeth y blaid ar unwaith, a hynny pan oedd yn paratoi ar gyfer yr etholiad cyntaf ym mis Mai 1999. Buddsoddodd y Blaid mewn amser, arian a phobl er mwyn gallu paratoi maniffesto manwl.⁷⁴ Cynyddodd yr arian a oedd ar gael i'w wario ar ymgyrchoedd etholiadol ac arbrofodd gyda thechnegau ymgyrchu newydd a gwahanol megis ymgyrchu dros y ffôn.⁷⁵ Yn ôl cyfweiliad yn 1999, roedd maniffesto'r Blaid yn un manwl iawn – yr un mwyaf cynhwysfawr a phroffesiynol yn hanes y blaid.⁷⁶ O'i gymharu â maniffesto'r blaid mewn etholiadau cyffredinol blaenorol, roedd y newid yn un amlwg.⁷⁷ Ers dyfodiad datganoli, gwelwyd newidiadau yn y modd y mae'r blaid yn ysgrifennu ac yn cyfleu'r maniffestos; mae'r dogfennau'n llawer mwy proffesiynol o ran edrychiad. Yn ogystal, mae technegau ymgyrchu'r blaid wedi datblygu. O'r herwydd, ers dyfodiad datganoli, mae ymgyrchu Plaid Cymru'n fwy effeithiol.⁷⁸

Wrth i blaid ddod yn fwy llwyddianus, mae'n newid mewn sawl ffordd wahanol. Yn ôl y llenyddiaeth, y prif newid yw'r nifer o swyddi a gaiff eu creu o fewn y blaid.⁷⁹ Cawn weld fod hyn yn wir yn achos Plaid Cymru. Cydnabu pawb a gafodd ei gyfweld bod cynnydd

⁷³Cyfweiliad:28.06.2010(a)

⁷⁴ Cyfweiliad:30.01.2009

⁷⁵ Ibid.

⁷⁶ Cyfweiliad:06.02.2009

⁷⁷ Cyfweiliad:28.06.2010(b)

⁷⁸ Cyfweiliad:22.06.2010

⁷⁹ Deschouwer, K. *New Parties*. tt.14.

wedi bod yn nifer y swyddi yn y Blaid o achos datganoli. Cyflogwyd mwy o staff, ac hefyd etholwyd mwy o ymgeiswyr.⁸⁰ Yn ogystal â newidiadau arwynebol o ran trefniadaeth, megis swyddfeydd newydd, gwelwyd hefyd newidiadau mwy sylfaenol fel sefydlu Uned Ymgyrchu ac Uned Ddatblygu a phenodi Cyfarwyddwr Cyfathrebu.⁸¹ Yn ogystal, ers 2007 newid arall a welwyd o ran swyddi, am fod y blaid bellach yn llywodraethu, yw penodi tri Cynghorwr Arbennig (SPADs). Yn nodweddiadol, disgwylir i'r strwythurau hyn fodoli mewn plaid broffesiynol, ond nid oeddynt yn bodoli ym Mhlaid Cymru cyn datganoli. Felly, mae gorfod cystadlu mewn arena sefydliadol newydd a llwyddo i ennill grym wedi peri i'r blaid ddatblygu - o ran nifer y staff ac o ran natur y swyddi sydd ar gael. Bellach, mae trefniadaeth swyddogol y blaid yn fwy pendant ac yn symlach (fel y awgrymodd y llenyddiaeth yn achos y pleidiau Gwyrddion)⁸².

Mae dyfodiad datganoli wedi cael effaith mawr ar ddelwedd gyhoeddus y Blaid. Yn 2006, newidiwyd trefniadaeth a delwedd y blaid. Yn gyntaf, penderfynodd y Blaid newid ei henw o Blaid Cymru i 'Plaid'. Newidiwyd lliwiau'r Blaid o wyrdd a choch i felyn. I gyd-fynd â'r newid lliw, newidiwyd y logo o'r triban (draig goch ar gefndir o dri mynydd) i flodyn melyn Cymreig. Yn sicr, roedd y ddelwedd newydd hon yn un fwy proffesiynol, ac yn sgil datganoli, gorfodwyd y blaid i geisio diweddarau ei delwedd er mwyn denu mwy o sylw a chystadlu yn erbyn y pleidiau eraill.⁸³

Pwynt eithriadol o bwysig yw bod pob un a gafodd ei gyfweld wedi datgan bod datganoli wedi cael effaith ar ddelwedd gyhoeddus y Blaid. Roedd pawb o'r farn fod y Blaid yn fwy amlwg, a bod datganoli wedi rhoi mwy o hygyrdedd i'r Blaid. Mae datganoli wedi rhoi'r cyfle i Blaid Cymru fod yn fwy perthnasol. Mae datganoli wedi galluogi Plaid Cymru i barhau â'r broses o newid canfyddiad pobl o'r blaid, gan ei gwneud yn rhan normal o fywyd

⁸⁰ Cyfweliad:30.01.2009

⁸¹ Cyfweliad:16.06.2010

⁸² Deschouwer, K. *New Parties*. tt.14.

⁸³ Ibid.

gwleidyddol Cymru yn hytrach nag yn blaid ymylol/eithafol. Enghraifft sy'n dangos y newid yn nhôn a delwedd y blaid yw'r ffordd y deliodd y blaid gyda sefyllfa Rhodri Glyn Thomas.⁸⁴ Wedi iddi ddod i'r amlwg fod Rhodri Glyn Thomas wedi torri cyfraith gwlad, collodd ei le yn y cabinet, a chymrodd y blaid gamau sydyn iawn i sicrhau ei bod yn ymateb yn effeithiol.

Gwelwyd sawl newid yn nhrefniadaeth y Blaid yn ystod cyfnod cyntaf Ieuan Wyn Jones fel Llywydd y Blaid. Penderfynodd Ieuan Wyn Jones ad-drefnu grŵp Plaid Cymru, er mwyn paratoi'r Blaid ar gyfer llywodraethu. Ad-drefnodd y grŵp eto yn 2002, er mwyn galluogi i'r Blaid ystyried y newidiadau ym mhorthffolio clymblaid Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yn ogystal, pleidleisiodd y blaid yn 2006 dros enwi Arweinydd y Blaid yn y Cynulliad yn Arweinydd Cyffredinol y Blaid. Golygai hyn mai Ieuan Wyn Jones oedd Arweinydd y Blaid. Roedd y newidiadau trefniadol hyn yn deillio o ddatganoli. Datganodd dau a gafodd eu cyfweld yn benodol na fyddai'r newidiadau hyn wedi digwydd oni bai am ddatganoli.⁸⁵

Ers dyfodiad datganoli, newid arall yn nhrefniadaeth y blaid yw'r newid a wnaed i gynhadledd y Blaid. Datblygodd cynhadledd y Blaid i fod yn fwy proffesiynol ers datganoli.⁸⁶ Cyfeiriodd y sylwebyddion Betsan Powys a Darren Hill at y modd y mae'r Blaid wedi llwyddo i gynnal cynadleddau llwyddiannus a llawer mwy proffesiynol ers dyfodiad datganoli.⁸⁷ Wrth edrych yn ôl ar gynadleddau'r blaid cyn datganoli, a'u cymharu â'r cynadleddau wedi datganoli, gellir gweld newid mawr. Y gwahaniaethau pennaf yw maint y gynhadledd, y sylw a geir yn y wasg a delwedd y blaid yn ystod y gynhadledd.

Awgrymai'r llenyddiaeth y byddai'r pleidiau, wrth iddynt symud yn ôl ac ymlaen dros wahanol drothwyon, yn gorfod wynebu nifer o broblemau, yn ogystal â datblygu i fod

⁸⁴ Western Mail. 'Heritage Minister Rhodri Glyn Thomas quits', 18/07/2008

⁸⁵ Cyfweliad:28.06.2010 (a) a (b).

⁸⁶ Cyfweliad:30.01.2009

⁸⁷ BBC Cymru, Cynhadledd Wanwyn Plaid Cymru. 2009

yn fwy proffesiynol.⁸⁸ Gwelwn fod hyn i gyd wedi digwydd i Blaid Cymru. Mae trefniadaeth ac arweinyddiaeth y blaid “*wedi chwyldroi, fel eich bod chi’n edrych ar ddau greadur gwahanol o gyn ac ar ôl datganoli.*”⁸⁹ Mae camau enfawr wedi eu cymryd ers 1999, ac mae’n deg nodi mai dyfodiad datganoli sy’n gyfrifol am y rhan fwyaf o’r datblygiadau a’r newidiadau hyn.

Ideoleg / Polisiâu

Yn gyffredinol, mae’r llenyddiaeth am y Pleidiau Gwyrdd yn awgrymu eu bod yn mabwysiadu iaith wleidyddol newydd (h.y. ffordd newydd o gyfeirio at eu hunaniaeth ideolegol).⁹⁰ Rhaid pwysleisio bod y newidiadau hyn yn rhai bychain ar y cyfan ac yn digwydd yn eithaf araf. Yn ogystal, rhaid nodi bod y llenyddiaeth yn datgan y dylid disgwyl mwy o newidiadau mewn polisiâu yn hytrach na mewn ideoleg. Yn yr is-adran hon, ystyrir y newidiadau mewn ideoleg neu bolisiâu sydd wedi digwydd i Blaid Cymru ers dyfodiad datganoli.

Yng Nghynhadledd Wanwyn y Blaid yn 2009, dywedodd Adam Price fod Plaid Cymru “*are a party of European left.*”⁹¹ Wrth astudio ideoleg a pholisiâu’r Blaid ers datganoli, mae’n dra amlwg nad oes unrhyw newid wedi bod yn ideoleg y Blaid, ac mae hynny i’w ddisgwyl. Er hynny, ers datganoli, gwelwyd newid cynnil a dull mwy pendant o gyfeirio at ei hunaniaeth ideolegol. Mae’r Blaid yn hollol glir yn awr ynghylch y nod o annibyniaeth; ni welwyd o’r blaen gymaint o swyddogion a gwleidyddion y Blaid yn siarad mor agored am annibyniaeth.⁹² “*Newid gêr*” oedd disgrifiad Betsan Powys o ddull newydd Plaid Cymru o siarad am annibyniaeth.⁹³ Roedd bron pob un gwleidydd yng Nghynhadledd

⁸⁸ Strøm, K. ‘A Behavioral Theory’. a Strøm, K a Müller, W. ‘Political Parties’.

⁸⁹ Cyfweiliad:28.05.2010(a)

⁹⁰ Müller-Rommel, F a Poguntke, T. *Green Parties*. tt.103

⁹¹ BBC Cymru, 2009.

⁹² Cyfweiliad:28.06.2010(a)

⁹³ BBC Cymru, 2009.

Wanwyn 2009 y Blaid yn sôn yn eu hareithiau am y nod o annibyniaeth. Yn amlwg felly, nid yw'r nod 'annibyniaeth' yn un newydd, ond ers datganoli (yn benodol, ers i'r Blaid fod yn llywodraethu), mae'r Blaid wedi mabwysiadu dull a geirfa newydd i drafod y nod hwn.

Dangosodd y cyfweiliadau bod Plaid Cymru wedi newid y dull y mae'n creu polisiau oherwydd bod ganddi obaith gwirioneddol o lywodraethu. Ers 1999, mae'r cyd-destun gwleidyddol yn gwbl wahanol i'r cyd-destun yr oedd y Blaid wedi arfer ag ef. Mae'r blaid yn awr yn ymwybodol o'i gallu i ddylanwadu a gweithredu ar ei pholisïau. Gall polisiau'r blaid effeithio'n uniongyrchol ar bobl Cymru, ac mae hyn yn gyfrifoldeb mawr. Mae dyfodiad datganoli yn bendant wedi newid y ffordd y mae'r blaid yn mynd i'r afael â chynllunio polisiau. Yn ogystal, mae manifestos y blaid yn llawer manylach ers dyfodiad datganoli. Oherwydd newidiadau yn nhrefniadaeth y blaid, mae creu polisiau Plaid Cymru yn broses llawer llai personol ers 1999.

Mae datganoli wedi galluogi i'r blaid gael mynediad at fwy o wybodaeth a gwell adnoddau. Mae hyn yn gymorth amlwg wrth ddatblygu polisiau. Enghraifft benodol o hyn yw cyn etholiadau 2007 pryd y cafwyd ymgynghoriad mawr ar iechyd a lles. Casglodd y blaid dystiolaeth fanwl o sawl ffynhonnell wahanol. Canlyniad hyn oedd bod polisiau'r blaid yn llawer mwy manwl a realistig, gan sicrhau y byddai'r polisiau'n cael eu cynnwys yng nghytundeb Cymru'n Un. Cyn 1999, "*developing policy was aspirational ... we didn't have to put too much meat on the bone*"⁹⁴. Cawn weld nad yw hyn yn wir bellach; mae dyfodiad datganoli wedi sicrhau bod rhaid llunio polisiau llawer mwy clir. Yn amlwg, oherwydd hyn bu'n rhaid i Blaid Cymru newid ychydig ar y ffordd yr oedd yn creu ac yn ystyried polisiau. Gwelwn fod hyn yn rhywbeth a sefydlwyd yn y llenyddiaeth, ble y gwelwyd newid cynnil yn y broses o greu polisiau.

⁹⁴ Cyfweiliad:22.06.2010

Mae'n dipyn anos gweld newid yn natur polisïau'r blaid. Gwelwyd newid amlwg yng nghynnwys y polisïau cyn ac ar ôl datganoli. Fel y nodwyd uchod, erbyn hyn mae'n rhaid i'r blaid sicrhau bod y polisïau'n gallu cael eu gweithredu. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr. Cyn datganoli, seiliai Plaid Cymru ei pholisïau ar ei hegwyddorion neu ar yr hyn yr hoffent ei weld yng Nghymru, ond erbyn heddiw mae'n rhaid i'r blaid roi llawer mwy o ystyriaeth i'r polisïau a sicrhau bod modd eu gweithredu.⁹⁵

Cred rhai fod natur polisïau Plaid Cymru wedi newid ers iddi ennill grym llywodraethol. Mae cyfaddawdu pan fydd plaid mewn clymblaid yn thema arall a welwyd yn y llywodraeth. Ers i Plaid lywodraethu gyda Llafur, gwelwyd nifer o feysydd ble y bu'n rhaid i Plaid gyfaddawdu. Cred rhai aelodau fod hyn yn golygu bod polisïau'r blaid wedi newid, ond mae'r blaid yn datgan nad ydynt wedi newid.⁹⁶ Yn ôl un cyfweiliad, mae unrhyw newid polisi wedi digwydd oherwydd yr orfodaeth i gyfaddawdu.⁹⁷ Mae dau benderfyniad polisi y gellir eu hystyried eu fod yn newid natur polisïau'r blaid. Y cyntaf oedd penderfyniad gweinidog Plaid Cymru i beidio ag ariannu'r papur dyddiol Cymraeg, *Y Byd*. Roedd cynlluniau ar y gweill i lansio'r papur newydd cyn i Blaid Cymru ennill grym. Yng Nghymru'n Un, cytunodd Plaid Cymru a'r blaid Lafur i "*expand funding and support for Welsh-medium magazines and newspapers, including the establishment of a Welsh-language daily newspaper.*"⁹⁸ Torrwyd yr addewid hwn, a bellach nid oes unrhyw gynlluniau i lansio'r papur.

Yr ail benderfyniad polisi a greodd lawer o densiwn oedd y penderfyniad ynghylch ffioedd myfyrwyr. Mynnodd Plaid Cymru lynu wrth ei hargyhoeddiad y dylai addysg uwch fod am ddim. Roedd hyn yn egwyddor gan y blaid, sef ei bod yn anghywir gwneud i rywun dalu am ei addysg. Ond, roedd gan Lywodraeth Cymru'n Un broblem – roedd y polisi'n

⁹⁵ Ibid.

⁹⁶ Cyfweiliad:30.01.2009

⁹⁷ Ibid.

⁹⁸ Welsh Labour Party/ Plaid Cymru. *One Wales. A Progressive Agenda for the Government of Wales*,2007: t.35.

anfforddiadwy, ac yng nghlymblaid Cymru'r Un, cytunodd Plaid ar becyn sy'n datgan bod yn rhaid i fyfyrwyr gyfrannu'n ariannol at eu haddysg. Yn sicr, roedd rhai aelodau o'r farn fod Plaid yn torri ei pholisïau.⁹⁹

I grynhoi, mae'n amlwg fod y blaid wedi mabwysiadu geirfa newydd wrth siarad am ei hideoleg. Cyfeiria at ei hunaniaeth ideolegol mewn ffordd wahanol; yn awr mae'n hollol agored ynghylch ei nod o annibyniaeth.¹⁰⁰ Mae'r ideoleg wedi newid, fel y mae'r llenyddiaeth yn ei awgrymu. O ran y polisïau, mae hyn yn dipyn anoddach. Yn bendant, mae'r broses o greu polisïau yn wahanol ers dyfodiad datganoli, ond wrth astudio manifffestos y blaid, mae'n dipyn anoddach darganfod unrhyw newidiadau yn natur ei pholisïau. Ond er bod Plaid yn mynnu nad oes newid yn natur ei pholisïau, mae'n amlwg fod penderfyniadau megis y penderfyniad ynghylch *Y Byd* a ffioedd myfyrwyr wedi creu llawer o broblemau a thensiynau y tu fewn a thu allan y blaid.

Aelodau'r Blaid

Mae perthynas pleidiau gyda'u haelodau a'u haelodau cyffredin yn thema amlwg yn y llenyddiaeth ar y pleidiau Gwyrddion. Mae Deschouwer yn pwysleisio y bydd tensiynau'n datblygu ymysg aelodau plaid wrth iddi ddod yn fwy llwyddiannus.¹⁰¹ Yn ogystal, mae disgwyl i'r aelodau cyffredin ddatblygu i fod yn llai pwysig. Mae bod mewn clymblaid hefyd yn creu problemau rhwng yr aelodau oherwydd wrth i blaid ohirio, newid neu ddilyn trywydd gwahanol mewn perthynas â pholisïau, mae'n bosibl na fydd yr aelodau'n hapus gyda'r canlyniadau. Yn yr adran hon, edrychir ar y newidiadau sydd wedi digwydd ymysg aelodau'r blaid.

⁹⁹ Western Mail, 'Plaid expels student who spoke out against top-up fees', 26/03/09.

¹⁰⁰ Cyfweiliad:30.01.2010

¹⁰¹ Deschouwer, K. *New Parties*. tt.1-14.

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi bod nifer aelodau Plaid Cymru wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn. Ers datganoli, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr aelodau etholedig, ac yn y cyfnod hwn hefyd, gwelwyd y twf mwyaf yn nifer yr aelodau cyffredin.¹⁰² Mae'n ddigon posibl fod nifer aelodau Plaid Cymru wedi cynyddu oherwydd dyfodiad datganoli; "*Mae Plaid Cymru yn cael ei gweld nawr fel plaid mae'r bobl yn gallu rhoi ei ffydd ynddi i arwain cenedl yn hytrach na phlaid ar y cyrion. Ni'n ennyn rhywfaint o barch gan bobl fyddai, efallai, wedi bod yn ansicr ohonom ni yn y gorffennol.*"¹⁰³ Gwelwn fod datganoli'n gallu cael effaith bositif ar nifer aelodau'r blaid.

Mae'n bwysig nodi bod anghytundeb ymysg y bobl a gafodd eu cyfweld ynglŷn â sut mae rôl yr aelodau cyffredin wedi newid ers dyfodiad datganoli. Dywedodd un nad oedd unrhyw newid yn y berthynas rhwng yr aelodau cyffredin a'r blaid ers datganoli, am fod y blaid wedi cadw'i phrosesau mewnol yn ddemocratig.¹⁰⁴ Er hyn, dywedodd eraill a gafodd eu cyfweld fod newid mawr wedi digwydd yn y berthynas rhwng yr aelodau cyffredin a'r blaid ers datganoli, h.y. bod yr aelodau, ers 1999, wedi mynd yn llai pwysig. "*Mae'r cydbwysedd wedi symud tuag at yr elfen broffesiynol o ran cynllunio polisiau ac yn raddol o ran dewis ymgeiswyr.*"¹⁰⁵ Er hyn oll, mae'n bwysig nodi bod gan yr aelodau cyffredin, ers dyfodiad datganoli, rôl bwysicach o ran ymgyrchu a chodi arian, gan fod llawer mwy o etholiadau ers 1999.

Un peth a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfweliadau oedd y tensiynau sydd wedi ymddangos rhwng yr aelodau a'r blaid ers iddi fod mewn grym. Yn ôl y llynyddiaeth, mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y blaid yn bartner mewn clymblaid ac felly yn gorfod cyfaddawdu. Am amryw o resymau, mae rhywfaint o anniddigrwydd ymysg aelodau'r blaid ynghylch ei pherfformiad yn y llywodraeth, yn enwedig am fod blaenoriaethau ei hagenda wedi mynd yn

¹⁰² Cyfweliad:22.06.2010

¹⁰³ Cyfweliad:06.03.2010

¹⁰⁴ Cyfweliad:22.06.2010

¹⁰⁵ Cyfweliad:28.06.2010(a)

groes i'r hyn yr oedd yr aelodau yn ei ddisgwyl.¹⁰⁶ Y prif faterion sydd wedi creu anniddigrwydd yw peidio â sefydlu papur dyddiol Cymraeg, y siom ynghylch Coleg Ffederal, y diffyg cynnydd mewn perthynas â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) ar yr iaith Gymraeg, y mesur Dysgu a Sgiliau, a ffioedd atodol.

Bu dadlau ynghylch ffioedd atodol. Yn ôl un o aelodau Plaid a gyfwelwyd, mae'r dadlau dros y ffioedd yn broblem mewn perthynas â'r aelodau cyffredin, "*mae rhai o'n haelodau wedi cael eu siomi mewn ffordd ddwfn.*"¹⁰⁷ Ymddangosodd sawl erthygl yn y *Western Mail* ar y dadlau cyhoeddus a fu rhwng unigolion o fewn y blaid oherwydd cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru'n Un. Ceir dwy enghraifft sy'n dangos yn glir sut mae agwedd y blaid at ffioedd atodol yn y Llywodraeth wedi creu anniddigrwydd ymysg yr aelodau ac wedi creu tensiynau rhwng gwahanol wynebâu'r blaid. Yr enghraifft gyntaf yw'r swyddog Plaid Cymru a ddewisodd ymddiswyddo oherwydd penderfyniad gweinidogion y blaid i gefnogi ffioedd atodol.¹⁰⁸ Ysgrifennodd nifer o aelodau at y *Western Mail* i fynegi eu dicter tuag at y blaid am gefnogi polisi seneddol sydd yn mynd yn erbyn un o egwyddorion y blaid.¹⁰⁹ Yr ail enghraifft yw'r ferch a gafodd ei diarddel o'r blaid am siarad yn gyhoeddus yn erbyn penderfyniad y blaid i gefnogi'r cynlluniau ar gyfer ffioedd atodol.¹¹⁰ Yn ogystal, mae'r mater wedi creu tyndra a thensiwn rhwng gwahanol weinidogion ac unigolion o fewn y blaid, gyda'r *Western Mail* yn galw'r dadlau yn "*Civil War*" rhwng Adam Price ac Ieuan Wyn Jones.¹¹¹

Penderfyniad arall sydd wedi siomi rhai o'r aelodau oedd penderfyniad Rhodri Glyn Thomos ynghylch *Y Byd*. Roedd llawer iawn o'r aelodau'n anhapus gyda'r penderfyniad

¹⁰⁶ Cyfweiliad:16.02.2009

¹⁰⁷ Cyfweiliad:06.02.2009

¹⁰⁸Western Mail. 'Plaid officer resigns over student top-up fees', 1/4/09.

¹⁰⁹Western Mail. 'Plaid expels student who spoke out against top-up fees', 26/3/09

¹¹⁰Ibid.

¹¹¹Western Mail. 'Crisis talks loom for One Wales', 8/11/08.

hwn.¹¹² Roedd ymrwymiad i greu papur dyddiol Cymraeg i Gymru yn un o bolisiâu'r blaid. Oherwydd rhesymau cyllidol, bu'n rhaid torri'r addewid. Yn ogystal, gwelwyd anfodlonrwydd ym Machynlleth, oherwydd byddai'r papur wedi creu 24 o swyddi parhaol newydd yno.¹¹³ Yn ôl un o aelodau'r blaid a gyfwelwyd, mae'r anniddigrwydd ymysg yr aelodau am y penderfyniad ynghylch *Y Byd* yn dal i fodoli ac mae'r cymunedau Cymraeg yn lloerig nad yw'r Llywodraeth am lansio'r syniad yn y dyfodol agos.¹¹⁴

Yn ôl un cyfweliad, "*Credaf fod aelodau Plaid Cymru fel Obama, - awyddus i lwyddo ond wedi sylweddoli bod llywodraethu'n anodd.*"¹¹⁵ Mae hyn yn wir; mae'r aelodau wedi sylweddoli bod yn rhaid i Blaid Cymru gyfaddawdu ac nad yw'r daith yn un esmwyth. Mae'r daith hyd yn hyn wedi creu tensiynau rhwng wynebâu'r blaid, gan greu anniddigrwydd ymysg yr aelodau. Mae'r cyfnod o ddatganoli a llywodraethu wedi creu tensiynau a phroblemau, ynghyd ag anniddigrwydd ymysg yr aelodau.

Casgliad y Bennod

Yn y bennod hon, gwelwyd bod tri thymor cyntaf Plaid Cymru yn y Cynulliad wedi bod yn gyfnod o geisio addasu i statws newydd fel y brif wrthblaid, o geisio cwrdd ag amcanion newydd, ac o lywodraethu. Mae'r blynyddoedd ers 1999 wedi bod yn gyfnod o orfod ymateb i'r sialensiau sydd wedi ymddangos oherwydd newid statws etholiadol a gwleidyddol. Yn ôl y llenyddiaeth, roedd hyn i'w ddisgwyl. Yn ail hanner y bennod, ceisiwyd canfod yn union pa fath o newidiadau a ddigwyddodd i Blaid Cymru ers dyfodiad datganoli yn 1999. Yn bennaf, mae'r blaid fel pe bai'n fwy proffesiynol, a'r newid mwyaf a welwyd oedd y newidiadau yn strwythurau trefniadaeth y blaid. Gwelwyd newidiadau polisi o ran y ffordd y bu'n rhaid i'r blaid feddwl am gynllunio polisiau. Gwelwyd newid pendant

¹¹²Western Mail. 'Plans for Welsh language newspaper axed', 15/2/08.

¹¹³ Western Mail. 'Plans for Welsh language newspaper axed', 15/2/08.

¹¹⁴ Cyfweliad:28.06.2010 (a)

¹¹⁵ Cyfweliad:06.02.2009

yn rôl yr aelodau, ac mae cyfnod Plaid Cymru mewn grym wedi creu peth anniddigrwydd ymysg yr aelodau mewn perthynas â materion polisi. Dengys hyn oll fod newidiadau sydd i'w ddisgwyl wrth i blaid leiafrifol ddod yn fwy llwyddiannus yn etholiadol a chael llywodraethu am y tro cyntaf wedi digwydd i Blaid Cymru.

Pennod 5

Yr SNP ers datganoli

“*Devolution breathed new life into the SNP.*”¹¹⁶ Yn etholiad datganoledig cyntaf yr Alban yn 1999, cafodd yr SNP ei chanlyniad gorau erioed. Llwyddodd y blaid i sicrhau 35 aelod allan o 129 aelodau yn Senedd yr Alban, gan ennill bron iawn 30% o’r bleidlais.¹¹⁷ Wedi’r canlyniad hwn, yr SNP oedd y brif wrthblaid yn Senedd yr Alban. Daeth yn dra amlwg y byddai’r SNP yn gallu cael effaith sylweddol o ran ffurfio polisïau. Yn ogystal, roedd y posibilrwydd o ennill grym yn un realistig. Fel yr awgrymwyd yn y llynyddiaeth, newidiodd amcan yr SNP wedi iddi groesi trothwy cynrychiolaeth. Penderfynodd yr SNP ddilyn y trywydd o ddylanwadu ar bolisïau, ond cymharol aflwyddiannus fu ei hymdrechion cynnar i wneud hynny.¹¹⁸ Yn sgil hyn, datblygodd tensiynau o fewn y blaid. Fel y nodwyd yn yr adolygiad o’r llynyddiaeth, bydd unrhyw blaid sy’n methu â chwrdd â’i hamcanion yn gorfod wynebu cwestiynau anodd a difrifol o du ei haelodau a’i chefnogwyr.

Yn ôl Mackay, “*Finding its role in the new institution was one of the biggest challenges facing the SNP after the 1999 election*”¹¹⁹ Datblygodd y tensiynau yn bennaf oherwydd brwydro cyson rhwng dwy garfan o fewn yr SNP. Roedd carfan y ffundamentalwyr (*fundamentalists*) yn credu mewn annibyniaeth ac nid oeddynt am fodloni ar ddim byd llai na hynny. Roedd y graddolwyr (*gradualists*) yn credu mewn datganoli’n raddol, gan ennill annibyniaeth o dipyn i beth drwy gyfrwng refferendwm. Yn ogystal â hyn, yn 2000, cafwyd y cyhoeddiad annisgwyl bod Alex Salmond yn sefyll lawr fel arweinydd yr SNP. Daeth John Swinney yn Arweinydd y blaid yn mis Medi 2000. Arweiniodd hyn oll at broblemau difrifol. Yn hytrach nag achub ar bob cyfle a godai yn sgil datganoli, cafwyd

¹¹⁶ Mackay, C. ‘The SNP and the Scottish Parliament: the start of a new song?’ yn Hassan, G. (gol.) *The Modern SNP*. tt.79

¹¹⁷ Ibid. tt.81

¹¹⁸ Cyfweiliad: 24.06.2010

¹¹⁹ Mackay, C. ‘The SNP and the Scottish Parliament tt. 81

anghytuno yn yr SNP. Cafwyd llawer o gecru mewnol a phroblemau disgyblaeth ymysg aelodau'r blaid yn Senedd yr Alban.¹²⁰ Ni lwyddodd John Swinney i ddatrys y problemau hyn. Yn wir, cafodd Swinney ei hun sawl dadl gydag aelodau eraill Senedd yr Alban.¹²¹

Daeth hyn i benllanw pan ymddiswyddodd dau o gynrychiolwyr yr SNP yn Senedd yr Alban yn ystod y tymor cyntaf oherwydd eu bod yn anghytuno â'u cyd-aelodau. Rhwng 1999-2003, bu'r SNP yn ansicr o'i chyfeiriad, cafwyd gwrthdaro mawr rhwng personoliaethau a chryn frwydro am awdurdod. Yn ogystal, yn taflu cysgod ar hyn i gyd roedd Alex Salmond a'r galwadau o du'r aelodau ar iddo ddychwelyd. Gwnâi hyn hi'n anoddach i'r SNP gyfleu ei neges wleidyddol amgen.

Profodd yr SNP ddirywiad etholiadol yn 2003, gyda'r ffactorau a nodwyd uchod yn cyfrannu at y siom hon.¹²² Fel y nodwyd yn y llenyddiaeth, yn aml gall colli seddi sbarduno galw am newid mewn arweinyddiaeth, polisiau a strategaeth. Yn achos yr SNP, deilliodd y colli seddi ar alwadau o'r fath. Wedi etholiadau 2003, cafwyd cyfnod o raniadau mewnol ynghylch materion megis yr arweinyddiaeth ac annibyniaeth. Yn ogystal, cafwyd anfodlonrwydd ac anghytuno mewnol ynghylch strategaeth a pholisi. Parhaodd y dadlau hwn trwy gydol hanner cyntaf ail dymor y Senedd.

Wedi i'r SNP gael canlyniadau gwael eto yn etholiad 2004, ymddiswyddodd John Swinney. Enillodd Alex Salmond etholiad yr arweinyddiaeth yn 2004 a rhoddwyd anawsterau'r tymor cyntaf a dechrau'r ail dymor o'r neilltu. Yn ystod yr ail dymor, o dan arweinyddiaeth Alex Salmond, gweddnewidiwyd y blaid o fod yn blaid a oedd yn cweryla'n fewnol i blaid a oedd, erbyn 2007, yn gallu mynd ati o ddifrif i geisio ennill grym. Erbyn etholiadau 2007, roedd y blaid wedi dysgu rhai gwersi allweddol. Canlyniad etholiad 2007

¹²⁰ Ibid.

¹²¹ Cyfweliad 06.07.2010

¹²² Disgynnodd cynrychiolaeth y blaid i 27 MSP. Denver, D. 'A 'Wake Up!' Call to the Parties: The results of the Scottish Parliament Elections 2003', *Scottish Affairs*, 44 (2003), tt. 31-53.

oedd i'r SNP ennill 47 sedd (gyda Llafur yn ennill 46 sedd).¹²³ Y disgwyl oedd y byddai'r SNP yn ffurfio llywodraeth leiafrifol, a dyna ddigwyddodd. Gyda chefnogaeth dau Gynrychiolydd o'r Blaid Werdd, aeth yr SNP ymlaen i ffurfio llywodraeth leiafrifol.

Dengys hyn oll fod hanes yr SNP yng nghyfnod datganoli wedi bod yn gyfnod o geisio addasu i statws newydd fel prif wrthblaid, o ymdrechu i gwrdd ag amcanion newydd ac o lywodraethu. Roedd yn rhaid i'r SNP ymateb i'r sialensiau a ddaeth yn sgil newid statws etholiadol a gwleidyddol - sialensiau y tynnwyd sylw atynt yn y llenyddiaeth. Gwelwn fod yr SNP wedi wynebu nifer o gyfleodd a chyfyngiadau wrth iddi groesi gwahanol drothwyon ers dyfodiad datganoli.

Trefniadaeth ac Arweinyddiaeth

Cyn datganoli roedd yr SNP, ar y cyfan, yn gorff gwirfoddol. Y mae datganoli wedi newid yr SNP yn sylfaenol. *“Since devolution, the SNP has transformed from a voluntary group of oppositionalists to a professional political party”*¹²⁴. Ym mhob cyfweiliad, cydnabuwyd yn ddi-os fod trefniadaeth yr SNP wedi newid oherwydd dyfodiad datganoli. Mynegodd pob un a gafodd ei gyfweled fod yr SNP, erbyn dyfodiad datganoli, wedi dod yn blaid fwy proffesiynol. Yn yr isadran hon, ystyrir sut y mae trefniadaeth ac arweinyddiaeth yr SNP wedi newid, a hefyd sut y mae'r blaid wedi esblygu i fod yn blaid fwy proffesiynol.

Wrth iddi baratoi ar gyfer yr etholiad cyntaf yn 1999, gwelwyd newidiadau trefniadaeth ar unwaith o fewn y blaid. Buddsoddodd yr SNP mewn amser, arian a phobl er mwyn gallu paratoi maniffesto manwl.¹²⁵ O'i gymharu â maniffesto'r blaid mewn etholiadau cyffredinol blaenorol, roedd y newid yn un sylweddol.¹²⁶ Ers dyfodiad datganoli, gwelwyd

¹²³ Johns, R., Mitchell, J., Denver, D. A Pattie, C. 'Valence Politics in Scotland: Towards an Explanation of the 2007 election', *Political Studies*, 57 (2007), tt. 207-233.

¹²⁴ Cyfweiliad: 24.06.2010

¹²⁵ Cyfweiliad: 30.06.2010

¹²⁶ Ibid.

newidiadau yn y modd y mae'r blaid yn ysgrifennu ac yn cyfleu'r manifestos. O gymharu manifesto'r blaid yn 1997 gyda'r rhai wedi datganoli, gwelwn mai'r newid mwyaf amlwg o ran y manifestos yw sut mae'r dogfennau'n edrych. Mae'r rhai o'r cyfnod wedi datganoli yn edrych yn llawer mwy proffesiynol a chawn weld eu bod nhw wedi'u hysgrifennu mewn dull mwy atyniadol. Yn ogystal, mae technegau ymgyrchu'r blaid wedi datblygu. O'r herwydd, ers dyfodiad datganoli, mae'r ymgyrchu'n fwy effeithiol. Gwelwyd y blaid yn datganoli i fod yn "*modern election fighting machine.*"¹²⁷ Yn sgil datganoli, ad-drefnodd yr SNP ei phencadlys a'i thechnegau ymgyrchu.¹²⁸

Y prif newidiadau trefniadaethol yn hanes yr SNP oedd cynigion Swinney. Nododd Swinney fod yn rhaid cael y newidiadau hyn oherwydd dyfodiad datganoli a'r arena sefydliadol newydd.¹²⁹ Er mwyn ethol yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd ac er mwyn dewis ymgeiswyr, cyflwynodd y drefn OMOV (*One Member, One Vote*). Yn ogystal, roedd hyn yn creu swydd Arweinydd y Blaid, a oedd yn disodli'r Cynllunydd Cenedlaethol ac yn rhoi'r grym i'r arweinwyr benodi Cynllunydd Busnes o blith aelodau'r Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol. Creodd restr aelodaeth ganolog a oedd yn rhoi mwy o reolaeth i Arweinydd y blaid a'r staff proffesiynol. Yn ogystal, gwelwyd y blaid yn rhesymoli'r Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol. Yr oedd y newidiadau hyn yn rhai sylweddol i drefniadaeth fewnol yr SNP. Yn ôl sawl un a gyfwelodd, gwnaed y newidiadau hyn oherwydd dyfodiad datganoli.¹³⁰

Yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth ar y Pleidiau Gwyrdd, nodwyd mai'r newid mwyaf a awgrymir yw'r cynnydd yn y nifer o swyddi a geir mewn plaid. Gwelwn fod hyn yn rhywbeth a wireddwyd yn achos yr SNP. Cydnabu pawb a gafodd ei gyfweld fod cynnydd wedi bod yn nifer y swyddi yn y blaid o achos datganoli. Cyflogwyd mwy o staff, ac

¹²⁷ Mackay, C. 'The SNP and the Scottish Parliament'. tt.84

¹²⁸ Ibid.

¹²⁹ Cyfweliad:06.07.2010

¹³⁰ Ibid.

etholwyd mwy o ymgeiswyr. Cyn datganoli, dim ond tua 20 o staff oedd gan yr SNP. Erbyn heddiw, yng nghyfnod datganoli, mae gan y blaid 150 aelod staff.¹³¹ Mae hyn yn gynnydd sylweddol; mae'n newid arwyddocaol a ddeilliodd o anghenion datganoli. Felly, mae gorfod cystadlu mewn arena sefydliadol newydd a llwyddo i ennill grym wedi peri i'r blaid ddatblygu – o ran nifer y staff ac o ran natur y swyddi sydd ar gael. Bellach, mae trefniadaeth swyddogol y blaid yn fwy pendant ac yn symlach (fel y awgrymodd y llenyddiaeth yn achos y pleidiau Gwyrddion).

Wedi datganoli, cafwyd newid trefniadol arall o ran delwedd yr SNP. Mewn sawl cyfweiliad, nodwyd fod y blaid yn fwy perthnasol oherwydd cyd-destun datganoli. Yn ôl un cyfweiliad, *“The public image of the SNP has become one of a serious political party, we have made an unique effort to evolve this image since devolution”*¹³² Mae'r blaid, ers datganoli, wedi ymdrechu'n galed i geisio sicrhau bod ei delwedd yn un sydd yn apelio at nifer eang o bobl. *“The Scottish public see the SNP as much more relevant in the context of Scottish Parliament elections than they ever did in Westminster elections”*¹³³ Yn sicr, mae datganoli wedi hybu delwedd yr SNP - mae'r newid hwn yn un amlwg. Mae'r arena sefydliadol newydd wedi rhoi cyfle i'r blaid fod yn berthnasol i'r Alban. Yn y cyfweiliadau hefyd, nodir bod delwedd y blaid wedi newid ers dyfodiad datganoli h.y. gwnaed penderfyniad pendant i ailstrwythuro ei delwedd er mwyn sicrhau statws uwch iddi.¹³⁴

Newid arall a welwyd yn nhrefniadaeth y blaid ers dyfodiad datganoli yw'r newid a gafwyd yng nghynadleddau'r blaid. *“A number of changes have occurred due to devolution that have affected the party's annual conference”*¹³⁵ Ers datganoli, mae cynhadledd y blaid

¹³¹ Mackay, C. 'The SNP and the Scottish Parliament'. tt.79

¹³² Cyfweiliad:28.06.2010 (c)

¹³³ Cyfweiliad:23.06.2010

¹³⁴ Ibid.

¹³⁵ Cyfweiliad:24.06.2010

wedi datblygu i fod yn fwy proffesiynol.¹³⁶ Erbyn hyn, mae'r gynhadledd yn cael ei hystyried cyn bwysiced â chynadleddau'r pleidiau eraill. Heddiw, cynhadledd yr SNP yw'r gynhadledd wleidyddol fwyaf yn yr Alban.¹³⁷ Ond mewn gwirionedd, mae'r gynhadledd wedi dod yn llai pwysig gan iddi golli'r grym i ethol Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y blaid. Er hyn, soniodd sawl un a gyfwelwyd fod y gynhadledd yn parhau'n ddefnyddiol fel lle i ryngweithio.

Gwelir fod y gynhadledd yn cael llawer mwy o sylw gan y cyfryngau ar ôl datganoli. Enghraifft o hyn yw cynhadledd yr SNP yn 2008. Rhoddodd y BBC adran gyfan o'i gwefan i sôn am gynhadledd y blaid, rhywbeth na fyddai wedi digwydd cyn datganoli.¹³⁸ O gymharu hyn â'r drafferth fawr a gafodd y blaid yn ei chynhadledd yng ngwanwyn 1996, gwelwn fod y newid wedi bod yn un sylweddol.¹³⁹ Bu'n rhaid i'r blaid fynd â'r BBC i gyfraith er mwyn ceisio sicrhau sylw teg i'r gynhadledd ar y cyfryngau.

| Plaid | Cefnogaeth yn yr Alban | Yr amser a roddwyd i gynhadledd 1996 ar y teledu |
|---------------------------|------------------------|--|
| Rhyddfrydwyr Democratiaid | 10% | 5awr 10 munud |
| Llafur | 52% | 4 awr 50 munud |
| Ceidwadwyr | 13% | 5 awr 15 munud |
| Yr SNP | 25% | DIM |

Dengys y tabl uchod yr annhegwch a'r problemau a wynebau'r SNP yn 1996.¹⁴⁰ Ers dyfodiad datganoli, mae'r sefyllfa hon wedi newid yn gyfan gwbl. Bellach, mae cynhadledd yr SNP yn cael yr un faint o sylw â'r pleidiau eraill, ac mae'r gynhadledd erbyn heddiw yn llawer mwy ac yn cael ei chynnal mewn dull llawer mwy proffesiynol. Yn ôl un cyfweiliad, "*the*

¹³⁶ Cyfweiliad:06.07.2010

¹³⁷ Ibid.

¹³⁸ http://news.bbc.co.uk/1/hi/in_depth/scotland/2008/snp_conference/default.stm (Cyrchwyd 27.07.2010)

¹³⁹ <http://atschool.eduweb.co.uk/hamish/media.html> (Cyrchwyd 28.06.2010).

¹⁴⁰ Ibid

change to our conferences has been a natural change since devolution... there is no doubt that devolution caused the change in the nature of our conferences and the media attention that we now receive."¹⁴¹

Mae datganoli hefyd wedi newid y gynhadledd mewn ffyrdd eraill. Bu'r gynhadledd wastad yn fodd i'r blaid wneud arian, ond ers datganoli, mae'r arian a wneir wedi cynyddu. Yn ogystal, bu'n rhaid dynodi amser penodol yn y gynhadledd ar gyfer areithiau gan weinidogion, yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd. O'r herwydd, ceir llai o amser ar gyfer cyfraniadau gan gynrychiolwyr. Nododd un a chafodd ei gyfweliad ei fod yn ofni y gallai'r gynhadledd droi'n fath o rali a'u bod yn pryderu na fyddai gan y gynhadledd rôl o ran llunio polisiau.¹⁴²

Awgrymai'r llenyddiaeth y byddai pleidiau yn dod yn fwy proffesiynol, yn creu swyddi newydd, a hefyd yn dod ar draws nifer o broblemau wrth iddynt groesi gwahanol drothwyon, yn ôl ac ymlaen. Gwelwn fod hyn oll wedi digwydd i'r SNP. Cymerwyd camau enfawr ers 1999, a gallwn gasglu mai o achos dyfodiad datganoli y gwelwyd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn.

Ideoleg / Polisiau

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth am y gwyrddion yn awgrymu eu bod yn mabwysiadu iaith newydd h.y. ffordd newydd o gyfeirio at eu hunaniaeth ideolegol.¹⁴³ Rhaid pwysleisio bod y newidiadau hyn yn rhai bychain ar y cyfan a'u bod yn digwydd yn eithaf araf. Rhaid nodi hefyd bod y llenyddiaeth yn datgan y dylid disgwyl mwy o newidiadau mewn polisiau yn hytrach na mewn ideoleg. Yn yr isadran hon, ystyrir y newidiadau mewn ideoleg neu bolisiau sydd wedi digwydd i'r SNP ers dyfodiad datganoli.

¹⁴¹ Cyfweliad:14.07.2010

¹⁴² Cyfweliad:26.06.2010

¹⁴³ Müller-Rommel , F a Poguntke, T. *Green Parties*. tt.103

Saif ideoleg yr SNP ar y chwith o'r canol ac mae hi'n blaid ddemocrataidd gymdeithasol. Datganodd pob un a gafodd ei gyfweld nad oedd ideoleg y blaid wedi newid ers dyfodiad datganoli. "*Our ideology has fundamentally not been changed since devolution; our raison d'être is Independence for our Nation and will always remain so.*"¹⁴⁴ Er hynny, yn ystod cynhadledd 2004, gwelwyd y blaid yn newid ei nod ideolegol o hunanlywodraeth i annibyniaeth. Dengys hyn newid cynnil yn y ffordd y mae'r blaid yn cyfeirio at ei hunaniaeth ideolegol.

Yn achos yr SNP, mae datganoli wedi cael effaith ar y ffordd mae'r blaid yn ffurfio polisiau. Gorfododd datganoli'r blaid i ystyried polisi domestig yn fwy o ddifrif. Wrth gyfweld, darganfuwyd fod y posibilrwydd gwirioneddol o allu llywodraethu wedi deillio ar newidiadau. Ers 1999, mae'r cyd-destun gwleidyddol yn gwbl wahanol i'r cyd-destun yr oedd y blaid wedi arfer ag ef. Mae'r SNP yn awr yn ymwybodol o'i gallu i ddylanwadu a gweithredu ar ei pholisiau. "*Manifestos were solemnly drawn up but with no real prospect of ever having to be implemented.*"¹⁴⁵ Mae'r newid wedi 1999 wedi bod yn un mawr; gall polisiau'r blaid bellach gael effaith uniongyrchol ar bobl yr Alban. Mae dyfodiad datganoli yn bendant wedi newid y ffordd y mae'r blaid yn mynd ati i gynllunio polisiau. Yn ogystal, mae manifestos y blaid yn llawer manylach ers dyfodiad datganoli. "*The nature of our policies have had to become more precise simply because, at least in those policy areas which are devolved, there is more likelihood of them having to be put into effect.*"¹⁴⁶ Mae'r gobaith o allu ennill grym wedi gorfodi'r SNP i newid y ffordd y mae'n llunio ei pholisiau.

Mae datganoli wedi galluogi i'r blaid gael mynediad at fwy o wybodaeth a gwell adnoddau. Mae hyn yn gymorth amlwg wrth ddatblygu polisiau. Enghraifft benodol o hyn yw cyn etholiadau cyntaf datganoli yn 1999, pan wnaeth yr SNP "*actively courted pressure*

¹⁴⁴ Cyfweliad:14.07.2010

¹⁴⁵ Cyfweliad:24.06.2010

¹⁴⁶ Cyfweliad:23.06.2010

groups with a number of civic engagement events”¹⁴⁷ Aeth y blaid ati i gasglu tystiolaeth fanwl o sawl ffynhonnell wahanol, megis cynadleddau gyda chyrrff proffesiynol priodol. Canlyniad hyn oedd bod polisiau’r blaid llawer manylach a mwy realistig. *“Formally, the process of creating policies has not changed, but the level of detail which is required is much more since devolution... policies now have to be more realistic and less aspirational.”*¹⁴⁸ Mae dyfodiad datganoli wedi sicrhau bod rhaid llunio polisiau llawer mwy clir. Gwelwn fod hyn yn rhywbeth a sefydlwyd yn y llenyddiaeth, a bod newid cynnil wedi digwydd yn y broses o greu polisiau, ac o’r herwydd yn natur y polisiau hefyd.

Mae’n anodd gweld newid pendant yn natur polisiau’r blaid. Gwelwyd newid amlwg yng nghynnwys y polisiau cyn ac ar ôl datganoli. Fel y nodwyd uchod, erbyn hyn mae’n rhaid i’r blaid sicrhau bod y polisiau’n gallu cael eu gweithredu. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr. Cyn datganoli, seiliai’r SNP ei pholisiau ar yr hyn a gredai neu yr hyn a hoffai ei weld yn digwydd yn yr Alban. Erbyn heddiw, mae’n rhaid i’r blaid roi llawer mwy o ystyriaeth i’w pholisiau a sicrhau bod modd eu gweithredu a bod yr hyn a gynigiant yn fforddiadwy.

Mae llywodraeth leiafrifol yn meddwl bod yn rhaid cyfaddawdu - mae hon yn thema arall a welwyd yn y llenyddiaeth. Ers i’r SNP ennill grym, gwelwn nifer o feysydd ble mae’r SNP wedi cyfaddawdu. Roedd rhai o’r farn fod hyn yn golygu bod polisiau’r SNP wedi newid. I’r gwrthwyneb, mae’r SNP yn datgan nad ydynt wedi newid. Boed natur y polisiau wedi newid ai peidio, mae’r SNP wedi cael ei gorfodi i anghofio am gynlluniau ar faterion megis treth cyngor, ac mae’n brwydro i allu cyflawni’r prif addewidion etholiadol, megis lleihau maint dosbarthiadau mewn ysgolion.

¹⁴⁷ Cyfweliad:06.07.2010

¹⁴⁸ Cyfweliad:25.06.2010

Ers bod mewn llywodraeth, mae'r SNP wedi'i chyhuddo o dorri sawl addewid sydd ymhlyg yn ei maniffesto. *"From smaller class sizes to cancelling student debt, from local income tax to a first-time grant for housebuyers, the list of SNP broken promises is extensive"*¹⁴⁹ Ceir sawl enghraifft o'r SNP yn cael ei chyhuddo o dorri polisiau maniffesto, megis:

- a) Torri'r addewid i roi hwb i iechyd a ffitrwydd pobl ifanc
- b) Peidio â rhoi'r hawl i blant ysgol nofio am ddim erbyn y dyddiad a addawyd
- c) Torri ymrwymadau yn ymwneud ag addysg,
- d) Torri'r addewid i leihau'r niferoedd mewn dosbarthiadau i lai na 18 disgybl.

A yw'r enghreifftiau hyn yn esiamplau o faniffesto'r SNP yn gwanhau, gan newid natur polisiau'r blaid, neu a ydynt yn esiampl o realiti llywodraethu? Gan nad yw'r aelodau SNP a gyfwelwyd yn cydnabod bod natur polisiau'r blaid wedi newid, mae'n rhaid dod i'r casgliad mai realiti llywodraethu sy'n gyfrifol am y newidiadau ym mholisiau'r SNP. Bydd yn rhaid astudio esblygiad maniffesto'r blaid yn ystod y blynyddoedd nesaf i ddarganfod newidiadau yn natur polisiau'r blaid ers dyfodiad datganoli. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi ei amlygu yn y llenyddiaeth. Fel yn y llenyddiaeth, mae'r newidiadau hyn yn rhai bychan a chynnil.

Mae'r SNP wedi mabwysiadu annibyniaeth fel ei phrif amcan. Mae hyn yn enghraifft o'r blaid yn cyfeirio at ei hunaniaeth ideolegol mewn ffordd wahanol. Mae'r ideoleg wedi newid fel yr awgrymodd y llenyddiaeth. Mae'r broses o greu polisiau yn bendant yn wahanol ers dyfodiad datganoli, ond wrth astudio maniffestos y blaid, mae'n dipyn anoddach darganfod unrhyw newidiadau yn natur ei pholisiau. Ond, er bod y blaid yn mynnu nad oes

¹⁴⁹ Herald Scotland, 'SNP accused of breaking promises to boost health', 29/12/2009.

newid yn natur ei pholisïau, mae'n eglur fod penderfyniadau'r SNP ers iddi ennill grym wedi creu llawer o broblemau.

Aelodau'r Blaid

Mae perthynas pleidiau â'u haelodau etholedig a'u haelodau cyffredin yn thema amlwg yn y llenyddiaeth am y pleidiau llai. Mae Deschouwer yn pwysleisio y bydd tensiynau'n datblygu ymysg aelodau plaid ac yn y blaid ei hun wrth iddi ddod yn fwy llwyddiannus.¹⁵⁰ Yn ogystal, mae disgwyl i'r aelodau cyffredin ddatblygu i fod yn llai pwysig. Yn yr adran hon, edrychir ar y newidiadau sydd wedi digwydd ymysg aelodau'r blaid.

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi bod nifer aelodau'r SNP wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn. Ers datganoli, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr aelodau etholedig, ac yn y cyfnod hwn hefyd, gwelwyd y twf mwyaf yn nifer yr aelodau cyffredin. Cynyddodd yr aelodau o 7,000 cyn datganoli i 15,644 (Ionawr 2010).¹⁵¹ Gwelwyd cynnydd sylweddol wedi dyfodiad datganoli, gyda nifer yr aelodau'n cynyddu'n raddol ers 1999.¹⁵² Gwelwn fod datganoli'n gallu cael effaith bositif ar nifer aelodau plaid.

Un o'r problemau y bu'n rhaid i'r SNP ei hwynebu wedi datganoli oedd y berthynas gyda aelodau'r blaid. Yn ystod 2002-2003, cododd helynt yn y blaid yn sgil llunio rhestr ranbarthol o ymgeiswyr ar gyfer Senedd yr Alban. Cafodd sawl aelod blaenllaw eu gwthio i lawr y rhestr. Cynhaliai'r wyth rhanbarth gyfarfodydd pennu safle (*ranking*) lle'r oedd cynrychiolwyr (*delegates*) yn pleidleisio ar gynnwys y rhestr. Roedd y cynrychiolwyr yn cynrychioli etholaethau, ond roedd rhai'n drwgdybio'r broses ddewis, gan amau bod rhai canghennau ac etholaethau yn defnyddio hen restrau aelodaeth (byddai hyn yn rhoi mwy o

¹⁵⁰ Deschouwer (2008:1-14)

¹⁵¹ <http://news.scotsman.com/politics/SNP--reveals-membership-boom.5951268.jp> (Cyrchwyd 19.07.2010)

¹⁵² Ibid.

bleidleisiau iddynt ac yn eu cynorthwyo i ddylanwadu ar y rhestr). Gwnaed cyhuddiadau bod canghennau newydd yn cael eu creu er mwyn cael mwy o gynrychiolwyr i bleidleisio ar gynnwys y rhestr ymgeiswyr.¹⁵³

Wrth i John Swinney ddiwygio'r rhestr aelodaeth a'r broses pennu safle, gan ddarparu OMOV i ddewis rhestr ranbarthol a chreu rhestr aelodaeth ganolog, roedd y canghennau'n gyfrifol am recriwtio a chefnogi aelodau, ond nid oedd hyn yn llwyddiannus mewn rhai ardaloedd. Creodd hyn lawer o broblemau i'r blaid. Er y cynnydd yn nifer aelodau'r blaid, creodd y diwygiadau hyn lawer o ddrwgdeimlad o fewn y blaid. Yn ystod 2002-2003, bu'r profiadau a gafwyd yn sgil yr anawsterau hyn ymhlith yr aelodau yn niweidiol iawn i'r SNP. Gallwn gasglu bod hyn yn deillio o gyfnod newydd datganoli a phenderfyniad Swinney i ddiwygio'r blaid yn ei sgil.

Mae'n bwysig nodi bod anghytundeb ymysg y bobl a gafodd eu cyfweld o ran sut mae rôl yr aelodau cyffredin wedi newid ers dyfodiad datganoli. Dywedodd un nad oedd unrhyw newid yn y berthynas rhwng yr aelodau cyffredin a'r blaid ers datganoli, am fod y blaid wedi cadw ei phrosesau mewnol yn ddemocratig.¹⁵⁴ Er hyn, dywedodd eraill a gafodd eu cyfweld fod newid mawr wedi digwydd yn y berthynas rhwng yr aelodau cyffredin a'r blaid ers datganoli h.y. bod yr aelodau, ers 1999, wedi mynd yn llai pwysig. *“There are members who feel that there is not so much contact with the grassroots members since devolution.”*¹⁵⁵ Gwelwn felly fod llawer o'r farn bod aelodau cyffredin yr SNP wedi mynd yn llai pwysig ac o bosibl wedi colli peth cysylltiad â'r blaid. Er hynny, mae'n bwysig nodi bod gan yr aelodau cyffredin, ers dyfodiad datganoli, rôl bwysicach o ran ymgyrchu a chodi arian; *“its members remain its most important resource.”*¹⁵⁶ Aelodau cyffredin sydd yn dal i wneud y gwaith ac yn codi'r rhan fwyaf o arian i'r blaid. Yn syml, *“The SNP was and is its*

¹⁵³ Cyfweliad:24.06.2010

¹⁵⁴ Cyfweliad:22.06.2010

¹⁵⁵ Cyfweliad:25.05.2010

¹⁵⁶ Cyfweliad:24.05.2010

membership”¹⁵⁷ Er bod y berthynas wedi newid rhywfaint oherwydd newidiadau yn yr arena sefydliadol, gwelwn fod aelodau cyffredin y blaid yn dal i fod yn bwysig iawn.

Mae cyfnod datganoli a llywodraethu wedi creu rhai tensiynau a phroblemau ymhlith yr aelodau i'r SNP. Yn bennaf, creodd problemau ethol ymgeiswyr lawer o anhawster i'r blaid a'i haelodau. Yn ogystal, datganodd sawl un a gyfwelwyd bod y berthynas rhwng y blaid a'r aelodau cyffredin wedi newid. Mae'r rhain i gyd yn newidiadau a datblygiadau a welwyd yn y llenyddiaeth ar y Gwyrddion.

Casgliad y Bennod

Mae'r SNP wedi bod trwy gyfnodau o geisio addasu i'w statws newydd fel prif wrthblaid, o geisio cwrdd ag amcanion newydd ac o geisio llywodraethu. Mae'r blynyddoedd ers 1999 wedi bod yn gyfnod o orfod ymateb i'r sialensiau a gododd yn sgil statws etholiadol a gwleidyddol newydd. Yn ôl y llenyddiaeth, roedd hyn i'w ddisgwyl. Yn ail hanner y bennod, ceisiwyd canfod yn union pa fath o newidiadau a ddigwyddodd i'r SNP ers dyfodiad datganoli yn 1999. Yn bennaf, mae'r blaid fel pe bai'n llawer mwy proffesiynol, a'r newid mwyaf a welwyd oedd y newidiadau yn strwythurau trefniadol y blaid. Gwelwyd newidiadau polisi o ran y ffordd y bu'n rhaid i'r blaid feddwl am gynllunio polisiau. Gwelwyd newid pendant yn rôl yr aelodau cyffredin. Cyn datganoli, roedd yr SNP yn blaid wirfoddol ar y cyfan gydag ychydig iawn o bobl yn gweithio yn llawn amser iddi, nid oedd ganddi lawer o arian ac roedd y rhan fwyaf o swyddi yn cael eu gwneud gan bobl a oedd yn gweithio'n llawn amser y tu allan i fyd gwleidyddiaeth. Dengys hyn fod y blaid wedi newid yn sylfaenol ac erbyn hyn rydym yn edrych ar blaid hollol wahanol.

¹⁵⁷ Ibid.

Pennod 6

Casgliad

Ers dyfodiad datganoli, mae arena sefydliadol newydd wedi ei sefydlu yng Nghymru a'r Alban. Golyga hyn fod pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol wedi ennill cynrychiolaeth ar lefel ranbarthol am y tro cyntaf yn eu hanes yn y Deurnas Unedig. Yn sgil datganoli, daeth yr SNP a Phlaid Cymru yn brif wrthbleidiau, a hefyd llwyddodd y ddwy blaid i ennill grym yn 2007. Wrth gymharu sefyllfa wleidyddol ac etholiadol y ddwy blaid yn 1999 â'r sefyllfa fel ac y mae hi heddiw, gwelwn fod y newidiadau wedi bod yn rhai rhyfeddol. Cyn dyfodiad datganoli, roeddynt yn bleidiau a oedd wedi bodoli am flynyddoedd heb wir ddylanwad gwleidyddol ac etholiadol. Ond erbyn heddiw, mae'r ddwy blaid mewn sefyllfa ble maent yn gallu dylanwadu ar bolisiâu a materion gwleidyddol o bwys.

Yn y prosiect hwn, ceisiwyd cymharu profiadau Plaid Cymru a phrofiadau'r SNP ers dyfodiad datganoli, yn ogystal â chymharu sut mae'r ddwy blaid wedi datblygu ac addasu yn sgil datganoli. Gwelwn fod y ddwy blaid wedi wynebu sialensiau amrywiol wrth iddynt geisio addasu i'r arena sefydliadol newydd. Cyflwynwyd tystiolaeth empeiraidd o sut yr aeth Plaid Cymru a'r SNP ati i ymateb i'r profiadau newydd, gan ganolbwyntio ar gyfres o ffactorau a seiliwyd ar y llenyddiaeth.

Dengys y prosiect hwn fod y ddwy blaid wedi wynebu gwahanol sialensiau wrth iddynt groesi gwahanol drothwyon. Mae'r ddwy blaid wedi datblygu ac addasu mewn sawl ffordd yn sgil dyfodiad datganoli:

- i) Cynnydd mewn swyddi,
- ii) Newid strwythurau'r arweinyddiaeth,

- iii) Maniffestos mwy proffesiynol,
- iv) Ymgyrchu mwy effeithiol,
- v) Newidiadau o ran delwedd,
- vi) Newidiadau i'r cynadleddau,
- vii) Newid geirfa mewn perthynas â'u hunaniaeth ideolegol,
- viii) Newidiadau o ran polisiau,
- ix) Cynnydd mewn aelodau,
- x) Newidiadau yn rôl aelodau cyffredin,
- xi) Trafferthion ymysg aelodau.

Dengys hyn fod Plaid Cymru a'r SNP wedi wynebu problemau a newidiadau tebyg iawn. Rhaid pwysleisio bod rhai newidiadau wedi digwydd mewn modd gwahanol e.e. gwelwyd llawer mwy o newid yn hunaniaeth ideolegol Plaid Cymru nag a wnaed yn hunaniaeth ideolegol yr SNP. Er hynny, gallwn gasglu bod y ddwy blaid wedi newid mewn modd tebyg yn sgil y cyd-destun gwleidyddol a sefydliadol newydd.

Mae'n rhaid ystyried i ba raddau y byddai'r newidiadau hyn wedi digwydd oherwydd datganoli yn unig. Hynny yw, sut mae mesur effaith 'datganoli' o'i gymharu ag effaith prosesau eraill? Er enghraifft, yn 1998, un swyddog polisi oedd gan Plaid Cymru. Erbyn 2002, roedd ganddi uned bolisiau a phedwar aelod staff. Ar yr olwg gyntaf, gellid tybio bod hyn yn deillio o anghenion datganoli. Ond byddai hynny'n anwybyddu'r ffaith bod y llywodraeth (y D. U.) wedi sefydlu trefn dyrannu grantiau a oedd yn caniatáu i'r blaid ychwanegu'n sylweddol at staff ei hadran bolisiau. Enghraifft arall yw dogfennau maniffestos yr SNP ers datganoli. Mae'r ddogfen wedi esblygu ers datganoli i fod yn ddogfen fwy

proffesiynol. Byddai rhywun eto yn tybio bod hyn yn deillio o anghenion datganoli, ond mae'n rhaid ystyried datblygiadau mewn gweisg argraffu. Mae gweisg argraffu wedi datblygu yn sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf, a gall hyn fod wedi cyfrannu at y gwelliant yn safon dogfennau swyddogol y blaid. Dengys hyn y gall ffactorau eraill, ar wahân i ddatganoli, fod yn gyfrifol am y newidiadau yn y ddwy blaid. Ar y cyfan, dyfodiad ac anghenion datganoli sydd yn gyfrifol am y newidiadau sydd wedi'u hasesu yn y prosiect hwn, ond mae'n rhaid cydnabod y byddai rhai o'r newidiadau wedi digwydd heb ddyfodiad datganoli.

Mae darganfyddiadau'r prosiect hwn, sydd wedi'u crynhoi uchod, yn dangos nad yw'r ffordd y mae Plaid Cymru a'r SNP wedi datblygu ac addasu yn sgil datganoli yn unigryw. Fel y gwelir yn yr adolygiad o lenyddiaeth, mae'r newidiadau a'r sialensiau a wynebwyd yn rhai a ddisgwylir yn achos pleidiau eraill sydd yn yr un sefyllfa. Ni newidiodd y pleidiau mewn ffordd annisgwyl, ac o hyn gallwn gasglu bod profiadau'r ddwy blaid yn nodweddiadol o brofiadau'r pleidiau eraill. Mae'r newidiadau yn cyfateb i'r hyn a awgrymwyd yn y llenyddiaeth.

A yw'r darganfyddiadau hyn felly'n awgrymu rhywbeth mwy cyffredinol am sut y mae pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn newid yn sgil arena sefydliadol newydd? Gallwn gasglu bod y newidiadau a ddarganfuwyd i'w gweld yn rhai sylfaenol, sy'n digwydd i unrhyw blaid wrth iddi groesi gwahanol drothwyon, yn ôl ac ymlaen. Rhaid cofio mai astudiaeth o ddwy blaid yn unig a gyflwynir yn y prosiect hwn. Bydd rhaid cyflawni gwaith academaidd empeiraidd pellach yn y maes er mwyn sicrhau bod y ddadl yn dal dŵr. Felly, nid yw'n bosib ffurfio hypothesis ar gyfer pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol yn gyffredinol gan fod angen astudiaeth empeiraidd bellach cyn y gellir profi a chadarnhau hyn.

Yn ôl Deschouwer, “*Opting for office does indeed mean that a number of voters are likely to punish the party at the next election.*”¹⁵⁸ Mae’r llenyddiaeth am bleidiau Gwyrddion a phleidiau newydd sy’n ennill grym yn awgrymu bod plaid sy’n llywodraethu am y tro cyntaf yn gallu wynebu canlyniadau negyddol mewn etholiadau sy’n dilyn. Yn ogystal, dangosodd y prosiect a’r llenyddiaeth y byddai’n rhaid i’r pleidiau feddwl yn galed am eu manifestos ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Rhaid i’r pleidiau geisio osgoi creu bwloch rhwng eu polisïau fel pleidiau ar y naill law a pholisïau eu gweinidogion seneddol ar y llaw arall. Mae hyn oll yn creu peryglon eraill y gall pleidiau gwleidyddol orfod eu hwynebu, sef goblygiadau methu â chwrdd â’u hamcanion. Fel y nodir yn yr adolygiad o’r llenyddiaeth academiaidd, weithiau gall y tensiynau a geir yn sgil hynny arwain at gwmp etholiadol, a gall hynny yn ei dro ddeillio ar anghytuno mewnol ynghylch trefniadaeth, polisïau a strategaethau.

Mae etholiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Senedd yr Alban ar y gorwel ym mis Mai 2011. Mae’n amhosibl dod i gasgliadau ynghylch sut y bydd y ddwy blaid yn perfformio ynddynt. Mae un peth yn sicr, yn sgil etholiadau cyffredinol 2010, gallwn weld na fydd y siwrnai yn un hawdd i Blaid Cymru a’r SNP. Ar ôl colli grym yn Llundain, mae Llafur wedi newid ei strategaeth; mae wedi troi i fod yn blaid sy’n amddiffyn y Cymry a phobl yr Alban yn benodol, ac yn beio pob dim ar Lundain. Mae hyn yn creu problemau difrifol i Blaid Cymru a’r SNP o ran lle y dylent leoli eu hunain. Mae’r ffaith fod y Blaid Lafur wedi troi’n gynyddol fwy cenedlaetholgar yng Nghymru a’r Alban wedi creu her fawr i Blaid Cymru a’r SNP o safbwynt strategaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae’r astudiaeth hon wedi profi bod Plaid Cymru a’r SNP wedi gorfod wynebu a cheisio datrys amryw o broblemau sy’n gyfarwydd i nifer o bleidiau eraill. Wrth ystyried casgliadau’r traethawd, gallwn ddisgwyl y bydd yn rhaid i’r ddwy blaid wynebu nifer o

¹⁵⁸ Deschouwer, K. *New Parties* t.12.

sialensiau eto yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dangosodd canlyniadau etholiad cyffredinol 2010 ein bod yn byw yn un o'r cyfnodau mwyaf cyffrous yn hanes gwleidyddol y ddwy wlad. Bydd yn ddiddorol gweld sut y bydd y ddwy blaid yn datblygu wrth i ni agosáu at yr etholiadau datganoledig a gynhelir fis Mai y flwyddyn nesaf.

Llyfryddiaeth

Adams, J., Clark, M., Ezrow, L. A Glasgow, G. 'Are Niche Parties Fundamentally Different from Mainstream Parties? The causes and the electoral consequences of Western European parties' policy shifts, 1976-1998', *American Journal of Political Science*, 50/3 (2006), tt.513-529.

Alexander, V., Cronin, A., Dickinson, M., Fielding, J., Moran-Ellis J., Sleney, J. a Thomas, H. 'Triangulation and integration: processes, claims and implications', *Qualitative Research*, 6 (2006), tt. 45-59.

Balsom, Denis. *The nature and distribution of support for Plaid Cymru* (Glasgow: Centre for the Study of Public Policy, 1979).

BBC Cymru. *Plaid Cymru Conference: Spring 2009* ar gael ar-
http://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/b00jvcl6/Plaid_Cymru_Conference_Spring_2009_Plaid_Cymru_The_Party_of_Wales/ (Cyrchwyd 6.3.09).

Betts, S., Borland, J. a Chaney, P. 'Inclusive Government for Excluded Groups: Women and Disabled People', yn Chaney, P., Hall, T. a Pithouse, A. (goln.), *New Governance – New Democracy?* (Cardiff: University of Wales Press, 2001).

Bond, R., Rosie, M. 'Identity matters: The personal and political significance of feeling Scottish' yn Bromley, C., Curtice, J., Hinds, K a Park, A. (goln.), *Devolution: Scottish answers to Scottish questions* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2003).

Biezen, I a Hopkin, J. 'Party organization in multi-level contexts', yn Hough, D a Jeffery, C. (goln.), *Devolution and Electoral Politics* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2006).

Bradbury, J. 'British political parties and devolution: adapting to multi-level politics in Scotland and Wales', yn Hough, D., Jeffrey, C. (goln.), *Devolution and Electoral Politics* (Manchester: Manchester University Press, 2006).

Curtice, J. 'Did devolution make a difference? The first post-devolution on UK election in Scotland', *Journal of Elections, Public Opinion & Parties*, 12/1 (2002), tt.64-79.

Curtice, J. 'Public Opinion and the Future of Devolution', yn Trench, A. (gol.), *The Dynamics*

of Devolution: The State of the Nations 2005 (Exeter: Imprint Academic, 2005).

Davies, J. (gol.), *Cymru'n Deffro: Hanes y Blaid Genedlaethol 1925-75* (Talybont: Y Lolfa, 1981).

Davies, J. *A History of Wales* (London: The Penguin Press, 1993).

Denver, D. 'A 'wake up!' call to the parties? The results of the Scottish Parliament Elections 2003', *Scottish Affairs*, 44 (2003), tt.31-53.

Denver, D. A MacAllister, I. 'The Scottish Parliament Elections 1999', *Scottish Affairs*, 28 (1999), tt.10-31.

Deschouwer, K. *New Parties in Government: In power for the first time* (Oxon: Routledge, 2008).

Downs, A. 'Pariahs in their Midst: Belgian and Norwegian parties react to extremist threats', *Western European Politics*, 24/3 (2001).

Evans, R. *Rhag Pob Brad* (Talybont: Y Lolfa, 2005).

Finlay, R. *Independent and Free – Scottish Politics and the origins of the Scottish National Party 1918-1945* (Edinburgh: John Donald, 1994).

Harmel, R a Janda, K. 'An Integrated Theory of Party Goals and Party Change', *Journal of Theoretical Politics*, 6/3 (1994), tt.259-287.

Harmel, R., Heo, U., Tan, A. A Janda, K. 'Performance, Leadership, Factions and Party Change: an empirical analysis', *Western European Politics*, 18/1 (1995), tt.1-33.

Hassan, G. 'The Making of the Modern SNP: From Protest to Power yn Hassan, G. (gol.) *The Modern SNP: From Protest to Power* (Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin, 2009).

Heinisch, R. 'Success in Opposition – Failure in Government: explaining the performance of right-wing populist parties in public office', *West European Politics*, 26/3 (2003), 91-130.

- Hepburn, E. 'The 2007 Scottish Elections: A dark day for participatory democracy?', *Regional and Federal Studies*, 18/1 (2008).
- Herald Scotland, 'SNP accused of breaking promises to boost health', 29/12/2009.
- Hix, S and Lord, C. *Political Parties in the European Union* (London: Macmillan Press Ltd, 1997).
- Hough, D a Jeffery, C. 'Understanding Post-Devolution Elections in Scotland and Wales in Comparative Perspective', *Party Politics*, 15 (2009) tt. 219-240.
- Johns, R., Mitchell, J., Denver, D. A Pattie, C. 'Valence Politics in Scotland: Towards an Explanation of the 2007 election', *Political Studies*, 57 (2007), tt. 207-233.
- Katz, R a Mair, P. (goln.), *How Parties Organize: Change and Adaptation in Party Organizations in Western Democracies* (London: Sage Publications Ltd, 1994).
- Kitschelt, H. *The transformation of European Social Democracy* (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1994).
- Krouwel, A. 'Party Models' yn Katz, R a Crotty, W. (goln.), *Handbook of Party Politics* (London: Sage Publications Ltd, 2006).
- Laffin, M., Shaw, E. 'British Devolution and the Labour Party: How a National Party Adapts to Devolution', *British Journal of Politics and International Relations*, 9 (2007), tt. 55-72.
- Lynch, P. *SNP: The history of the Scottish National Party* (Cardiff: Welsh Academic Press, 2002).
- Mackay, C. 'The SNP and the Scottish Parliament: the start of a new song?' yn Hassan, G. (gol.) *The Modern SNP: From Protest to Power* (Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin, 2009).
- Mair, P. 'The green challenge and political competition: how typical is the German experience', *German Politics*, 10/2 (2001), tt. 99-116.
- Meguid, B. 'Competition between Unequals: the role of mainstream party strategy in niche party success', *American Political Science review*, 99/3 (2005), tt.347-358.
- McAllister, I. 'Party Organization and Minority Nationalism: A Comparative Study in the United Kingdom', *European Journal of Political Research*, 9/3 (1981), tt. 237-256.
- McAllister, L. *Plaid Cymru: the emergence of a political party* (Bridgend: Seren, 2001).

- McAllister, L. 'The National Assembly Elections: Plaid Cymru's coming of age', *Contemporary Wales*, 14 (2001), tt.109-114.
- McAllister, L. 'Plaid Cymru' yn John Osmond a J Barry Jones (Gol.), *Birth of Welsh Democracy: The First term of the National Assembly for Wales* (Cardiff: Institute of Welsh Affairs, 2003).
- Mitchell, J. 'Shades of Plaid tint the SNP's future' *The Sunday Times*, Ebrill 18, 2010.
- Morgan, K. *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (Oxford: Clarendon Press, 1998).
- Müller- Rommel, F. 'The Lifespan and the Political Performance of Green Parties in Western Europe', *Environmental Politics*, 11/1 (2002), tt.1-16.
- Müller-Rommel , F a Poguntke, T. *Green Parties in National Governments* (London:Frank Cass, 2002).
- Müller-Rommel, F a Pridham, G. (goln.). *Small Parties in Western Europe: Comparative and National Perspectives* (London: Sage Publications Ltd, 1991).
- Müller-Rommel , F a Strøm, K. (goln.) *Policy, Office, o'r Votes?: How political parties in Western Europe make hard decisions* (Edinburgh: Cambridge University Press, 1999).
- O'Neill, M. *Green Parties and Political Change in Contemporary Europe: New Politics, Old Predicaments* (Ashgate: Aldershot,1997).
- Opendakker, R. 'Advantages and Disadvantages of Four Interview Techniques in Qualitative Research', *Forum Qualitative Social Research*,7/4 (2006), ar gael o: <http://nbn-resolving.de/urn:nbn:de:0114-fqs0604118>.
- Osmond, J a Jones, J (goln.) *Birth of Welsh Democracy: The first term of the National Assembly for Wales* (Cardiff: Institute of Welsh Affairs, 2003).
- Panebianco, A. *Political Parties: Organization and Power* (Cambridge: Cambridge University Press, 1988).

Pedersen, M. 'Towards a new typology of party life-spans and minor parties', *Scandinavian Political Studies*, 5/1 (1982), tt. 1-16.

Poguntke, T. 'Green Parties in National Governments: from protest to acquiescence?', *Environmental Politics*, 11/1 (2002), tt.133-145.

Plaid Cymru (1999). *Maniffesto Plaid Cymru 1999*, Caerdydd: Plaid Cymru.

Rihoux, B a Rüdiger, W. 'Analyzing Greens in power: setting the agenda', *European Journal of Political Research*, 45/1 (2006), tt. 1-33.

Royles, E. *Revitalising Democracy? Devolution and Civil Society in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).

Scully, R a Elias, A. 'The 2007 Welsh Assembly Election', *Regional and Federal Studies*, 18/1 (2008), tt.103-109.

Scully, R., Wyn Jones, R. a Trystan, D. 'Turnout, Participation and Legitimacy in Post-Devolution Wales', *British Journal of Political Science*, 34 (2004) tt. 519-37.

Smith, G. 'A System Perspective on Party System Change', *Journal of Theoretical Politics*, 1/3 (1989), tt.249-363.

Steed, M. 'Will devolution change British parties?', *Representation*, 36/1 (1999) tt. 12-17.

Strøm, K. 'A Behavioral Theory of Competitive Political parties', *American Journal of Political Science*, 34/2 (1990) tt. 565-598.

Strøm, K a Müller, W. 'Political Parties and Hard Choices', yn Strøm, K a Müller, W. (golgn.) *How Political Parties in Western Europe Make Hard Decisions* (Cambridge: Cambridge University Press, 1999).

Strøm, K a Müller, W.(goln.) *Coalition Governments in Western Europe* (New York: Oxford University Press, 2000).

Thomas, H., Morgan, K. a Ceredig, M. 'Political parties and the general election 2005', yn David, R. (gol.) *Minority Government – by Selective Co-operation*. (Cardiff: Institute of Welsh Affairs, 2007).

Welsh Labour Party/ Plaid Cymru. *One Wales. A Progressive Agenda for the Government of Wales* (2007) Ar gael ar: http://news.bbc.co.uk/2/shared/bsp/hi/pdfs/27_06_07_onewales.pdf (Cyrchwyd 26.05.2010).

Western Mail. 'Don't rush referendum, warns Dafydd El', 22/12/08.

Western Mail. 'Crisis talks loom for One Wales', 8/11/08.

Western Mail. 'Heritage Minister Rhodri Glyn Thomas quits', 18/07/2008.

Western Mail. 'Plans for Welsh language newspaper axed', 15/2/08.

Western Mail. 'Plaid expels student who spoke out against top-up fees', 26/3/09.

Western Mail. 'Civil war threatens to rip Plaid Cymru into pieces', 4/3/09.

Western Mail. 'Top-up fees controversy still spells trouble for Plaid Cymru', 9/3/09.

Western Mail. 'Plaid officer resigns over student top-up fees', 1/4/09.

Western Mail. 'Showdown comin gin the Plaid top-up fee Civil war', 5/3/09.

Western Mail. 'Plaid split AS campaign calls on AMs to defy Ieuan over top-up fees', 2/3/09.

Western Mail. 'Document reveals turmoil in Plaid over top-up fees issue', 21/3/09.

Wilson, G. *SNP: The Turbulent Years 1960-1990* (Yr Alban: Scots Independent Ltd, 2009).

Wolfgang, C a Strøm, K. (goln.) *Coalition Governments in Western Europe* (New York: Oxford University Press, 2003).

Wyn Jones, R. 'Polisiau a phleidiau', *Barn*, Ebrill 1999.

Wyn Jones, R. *Rhoi Cymru'n Gyntaf, Syniadaeth Plaid Cymru*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007).

Wyn Jones, R a Scully, R. 'Minor Tremor but Several Casualties: The 2003 Welsh Election', *Journal of Elections, Public Opinion and Parties*, 14, (2004), tt.191-207.

Wyn Jones, R. a Scully, R. 'Devolution and Electoral Politics in Scotland and Wales', *Publius*, 36/1 (2006) tt. 115-135.

Wyn Jones, R a Trystan, D. 'A quiet earthquake: The first national elections to the National Assembly for Wales,' *CREST Working Paper*, 85 (Medi 2000).

Y Wê

<http://atschool.eduweb.co.uk/hamish/media.html> (Cyrchwyd 28.06.2010).

<http://news.scotsman.com/politics/SNP--reveals-membership-boom.5951268.jp> (Cyrchwyd 19.07.2010)

http://news.bbc.co.uk/1/hi/in_depth/scotland/2008/snp_conference/default.stm (Cyrchwyd 27.07.2010)

Cyfweliadau

Aileen Campell MSP

Alasdair Allan MSP

Alasdair Morgan MSP

Andrew Welsh MSP

Bill Kidd MSP

Bill Wilson MSP

Bruce Crawford MSP

Cynog Dafis

Dr. Eve Hepburn

Dr. James Mitchell

Dr. Paul Cairney

Dr. Peter Lynch

Dr. Richard Wyn Jones

Dr. Dafydd Trystan

Elin Jones AC

Gwenllian Lansdown

Helen Mary Jones AC

John Dixon

Linda Fabiani MSP

Rhuanedd Richards